Cyngor Sir y Fflint

# Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint

## 2017/18




CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

# Cynnwys


01. Cyflwyniad 03

02. Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr 04

03. Sut mae Pobl yn ffurfio'n Gwasanaethau? 06

04. Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu 10

a. Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r deilliannau lles y mae pobl yn dymuno'u cyflawni
b. Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl
c. Cymryd camau i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
d. Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
e. Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel
f. Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni lles economaidd mwy, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

05. Sut Rydym yn Gwneud Beth a Wnawn 29

a. Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Swyddogaethau Proffesiynol
b. Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio i'r Dyfodol
c. Ein Gwaith Partneriaeth, Arweiniad Gwleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethiant ac Atebolrwydd

06. Mynediad at Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol 35




Os ydych yn darllen yr adroddiad hwn ar-lein mae dolenni yn yr adran olaf sy'n rhoi mwy o wybodaeth am ein gwasanaethau, ein cynlluniau a dogfennau allweddol. Ceir mynegai yn y cefn hefyd a all helpu i esbonio geiriau a thermau anghyfarwydd.

Mae'r adroddiad yn gosod allan ein siwrne welliant yn 2017/18 ac yn dangos sut rydym wedi hyrwyddo lles drwy'n gwasanaethau. Os ydych yn derbyn gwasanaeth gennym ni, gadewch i ni wybod a ydych yn credu fod yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad teg o'ch profiadau dros y 12 mis diwethaf. Croesawn unrhyw sylwadau sydd gennych ac mae'ch barn yn hanfodol os ydym am barhau i wella gwasanaethau er mwyn gwireddu canlyniadau i chi. Gallwch gysylltu â ni fel a ganlyn:


Neil Ayling (Prif Swyddog)
Gwasanaethau Cymdeithasol
Llawr 1af
Cam 1
Neuadd y Sir
YR WYDDGRUG
Sir y Fflint
CH7 6NN
Ebost: neil.j.ayling@flintshire.gov.uk

# Adran 1: Cyflwyniad

## Dyma ail Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi'i baratoi dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (2016) sy'n deddfu fod gofyniad statudol ar y Cyngor i lunio adroddiad blynyddol ar weithrediadau ei wasanaethau cymdeithasol.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd wedi trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Erbyn hyn mae'n ofynnol bod Cynghorau'n cefnogi pobl i gwrdd â'u deilliannau personol drwy ganolbwyntio ar lesiant, dewis ac atal. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut rydym ni, yn Sir y Fflint, yn datblygu'n gwasanaethau i gefnogi pobl i wella'u lles eu hunain a chyflawni eu deilliannau personol.

Bu 2017/18 yn flwyddyn o symleiddio gwasanaethau a chyflawni'r deilliannau gorau o fewn cyfyngiadau cyllideb y Cyngor. Adolygwyd prosesau a dulliau cyflawni i sicrhau eu bod mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, tra'n dal i gyflwyno canlyniadau o ansawdd da a chefnogaeth i bobl Sir y Fflint. Enghraifft o hyn yw'r bartneriaeth newydd gyda Hft i ddarparu gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith i'r rhai ag anabledd dysgu. Gallwch ganfod mwy am hyn yn Adran 4. Bydd y deuddeg mis sy'n dod yn 'flwyddyn o ymarfer', yn rhoi cyfle i ni wreiddio'r ffyrdd newydd hyn o weithio, a chanolbwyntio ar gyflawni ymarfer o ansawdd uchel ar draws gwasanaethau.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun i'n rhanddeiliaid o sut rydym wedi perfformio a gwella dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n tynnu sylw at unrhyw heriau rydym wedi'u hwynebu, beth rydym wedi'i ddysgu a sut mae'n gwasanaethau'n parhau i gael eu ffurfio i fodloni deilliannau lles pobl yn Sir y Fflint. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys yr unigolion a'r teuluoedd sy'n defnyddio'n gwasanaethau, ein staff, cynghorwyr, y cyhoedd, ein partneriaid, rheolyddion a Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn sail i ddatblygiad ein gwasanaethau a'r meysydd rydym am eu blaenoriaethu, sy'n cael eu hamlygu drwy gydol yr adroddiad hwn.

Yn yr adroddiad rydym yn gwerthuso'n perfformiad yn erbyn blaenoriaethau gwella'r llynedd. Mae'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio ar les ac maent yn gysylltiedig â'r chwe Safon Ansawdd Genedlaethol (SAG), sef:-

SAG 1: **Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r deilliannau lles y mae pobl yn dymuno'u cyflawni**

SAG 2: **Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl**

SAG 3: **Cymryd camau i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed**

SAG 4: **Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas**

SAG 5: **Cefnogi pobl i ddatblygu perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel**

SAG 6: **Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni lles economaidd mwy, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion**

# Adran 2: Crynodeb Y Cyfarwyddwr O Berfformiad

**Croeso i seithfed adroddiad blynyddol y gwasanaethau cymdeithasol yn Sir y Fflint a'n hail o dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA). Mae dau ddiben i'r adroddiad, adrodd ar sut y gwnaethom berfformio yn y flwyddyn ddiwethaf a thynnu sylw at ein cyfeiriad a'n blaenoriaeth o ran gweithredu yn y flwyddyn sy'n dod. Mae'n caniatáu i ni fyfyrio ar waith caled a chyflawniadau staff sy'n gweithio gyda phartneriaid wrth gefnogi oedolion, plant, teuluoedd a gofalwyr ledled Sir y Fflint.**

Er gwaetha'r pwysau gwirioneddol o ran cyllid a chapasiti, parhaodd y timau i gynnal a gwella'r gefnogaeth a roddwn i'n dinasyddion mwyaf bregus. Rydym wedi parhau i adeiladu ar ein perthnasoedd cadarnhaol yn gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau statudol, annibynnol a'r trydydd sector ar ein taith i fwy o gydweithio ac integreiddio.

Rwyf yn falch o adrodd fod cynnydd da wedi'i wneud ar draws ein gwasanaethau i gyd, sy'n cael ei darlunio drwy'r adroddiad a chan dystiolaeth ein bod yn gwella deilliannau i'n dinasyddion a'n cymunedau. Rhoddwyd cryn dipyn o sylw i RISCA, fel awdurdod ac i gefnogi darparwyr Sir y Fflint i gael eu lleisiau wedi'u clywed drwy'r prosesau ymgynghori a symud i gefnogaeth i weithredu'r newidiadau sydd eu hangen.

I'n helpu i ddeall yr heriau sy'n wynebu'r sector gofal yn fanylach, cynhaliom adolygiad statudol mewn partneriaeth â'n rhanddeililaid ac rydym wedi adnabod nifer o gynlluniau y gellir eu datblygu ymhellach i gefnogi a chryfhau'r sector. Un enghraifft yw datblygu gwefan Care@Flintshire sy'n helpu darparwyr gyda recriwtio a chadw, hyfforddiant, digwyddiadau hysbysebu, rhannu arfer da a rhwydweithio â'i gilydd.

Eleni aethom i bartneriaeth â Hft, elusen genedlaethol sy'n arbenigo mewn cefnogi oedolion ag anableddau dysgu i gael gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith ar draws Sir y Fflint. Mae'r gwasanaeth yn rhoi pobl yng nghanol popeth a wna gyda model cyfuno sy'n seiliedig ar Gymorth Gweithredol sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Bydd y cytundeb newydd a ddechreuodd ym mis Chwefror yn helpu i drawsnewid gwasanaethau fel bod pobl yn gallu profi lefelau uwch o gynhwysiant, annibyniaeth a dewis. Yn ogystal rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £4 miliwn o'n rhaglen gyfalaf mewn canolfan anabledd dysgu gymunedol a fydd yn dod yn lle hen ganolfan ddydd Glanrafon yn Queensferry. Bydd y ganolfan newydd yn cael ei lleoli'n agos iawn at yr un bresennol er mwyn lleihau'r effaith ar y gwasanaeth a bydd yn gyfleuster cymunedol blaenllaw yn lleol.

Y llynedd gwelwyd sefydlu Hwb Help Cynnar yn Sir y Fflint. Lluniwyd yr Hwb i alluogi cyflwyno ymyrraeth gynnar fwy amserol a phriodol a chymorth i deuluoedd ag anghenion mwy. Mae cefnogaeth yr Hwb wedi'i thargedu at deuluoedd a gafodd ddau neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (Adverse Childhood Experiences - ACE). Yn ei hanfod, ACEs yw profiadau trawmatig sy'n digwydd cyn 18 oed ac sy'n cael eu cofio drwy fywyd rhywun fel oedolyn. Mae'r profiadau hyn yn amrywio o ddioddef camdriniaeth lafar, feddyliol, rywiol a chorfforol, i gael eich magu mewn aelwyd lle mae trais domestig, cam-drin alcohol, rhieni'n gwahanu, rhieni yn y carchar, afiechyd meddyliol neu gam-drin cyffuriau yn bresennol. Yn dilyn cyfnod lansio tawel lle cafodd dros 300 o deuluoedd nad oedd yn bodloni'r trothwy i gael gwasanaeth statudol wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth drwy un neu fwy o'r asiantaethau yn yr Hwb, byddwn yn parhau i ddatblygu'r

# Adran 2: Crynodeb Y Cyfarwyddwr O Berfformiad

gwasanaeth a darparu'r ymyrraeth gynnar hanfodol sydd ei hangen. Mae'r dull hwn yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol i deuluoedd ac yn gostwng y galw am wasanaethau statudol. Mae'n cynorthwyo teuluoedd i gynnal y perthnasoedd sy'n bwysig iddyn nhw ac yn eu diogelu rhag niwed mewn ffyrdd sy'n ystyried eu barn eu hunain yn ogystal â barn y staff proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw.

Roedd Sir y Fflint yn llwyddiannus mewn cynnig i dreialu'r Cynnig Gofal Plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn rhoi hyd at 30 awr o ofal plant/addysg yr wythnos i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio ac yn gymwys amdano. Dengys yr adborth cynnar fod y cynllun yn helpu pobl yn ôl i waith, yn lleihau risg tlodi ac yn cefnogi lles plant drwy eu galluogi i gael profiadau plentyndod mwy cyfoethog a chadarnhaol.

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yw parhau i ddiogelu a rhoi cefnogaeth i aelodau mwyaf bregus ein cymuned. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'r pwysau parhaol ar y gyllideb yn rhoi'n defnyddwyr gwasanaeth na'n staff mewn risg. Yr her fydd parhau i reoli'r galw, gwneud mwy gyda llai a byddwn yn archwilio cyfleoedd pellach i gydweithredu lle mae hynny'n ychwanegu gwerth i ddinasyddion ac yn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth.

Yn ystod 2018/19 bydd ein dull yn seiliedig ar deuluoedd a byddwn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal. Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r wybodaeth iawn i bobl i gefnogi eu lles eu hunain, yn adolygu'n prosesau comisiynu a phrynu ac yn parhau â'n buddsoddiad cyfalaf. Bydd y flwyddyn sy'n dod yn 'flwyddyn ymarfer' pan fyddwn yn adeiladu ar brosesau asesu, buddsoddi mewn datblygiad staff a datblygu'n cynllunio ar gyfer olyniaeth.

Mae heriau o'n blaen o hyd, nid y lleiaf yw'r pwysau cyllidebol ond hefyd mae cymhlethdod newydd a'r galw am ofal cymdeithasol yn gofyn am agwedd newydd a ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gynaliadwy i'r dyfodol. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn sy'n dod ac ar ran ein Haelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Christine Jones a minnau, mae'n diolch i'r staff i gyd am eu cyfraniad yn cefnogi pobl ddiamddiffyn yn Sir y Fflint.

Hoffem ddiolch i'r holl unigolion sydd wedi caniatâu i ni rannu eu straeon i helpu i ddangos y gwahaniaeth y mae'r holl waith caled yn ei wneud i fywydau a lles pobl.

**Neil Ayling**
Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol

**Councillor Christine Jones**
Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

# Adran 3: Sut Mae Pobl yn Ffurfio'n Gwasanaethau?

**Mae'n bwysig fod pobl sy'n byw yn Sir y Fflint yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. I wneud hyn mae angen i ni wybod beth sy'n gweithio'n dda, beth sydd angen ei wella a beth mae pobl yn gobeithio'i weld yn digwydd yn y dyfodol. Dyma flas o sut rydym yn gwneud yn siŵr mai'r bobl sy'n ffurfio'r gwasanaethau a ddarparwn.**

## Sut rydym yn gwrando

Rydym yn defnyddio amryw o ddulliau i wrando. Mae arolygon yn ddefnyddiol ac eleni eto rydym wedi ymateb i gais Llywodraeth Cymru i gasglu data am les y bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau. Dyma grynodeb bras o'r hyn a ddywedwyd wrthym gan ymatebion ein Harolwg Dinasyddion 2017/18:-

## Beth sy'n gweithio'n dda i oedolion:

- Gofal, cefnogaeth ac ymroddiad staff gofal cymdeithasol
- Cyfle i fynd i weithgareddau cymunedol a gwirfoddoli
- Y cynllun Taliadau Uniongyrchol
- Ymgynghori â nhw a chael cymryd rhan mewn penderfyniadau
- Cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol
- Urddas a pharch yn cael eu dangos
- Cael yr wybodaeth a'r cyngor cywir
- Llety â chymorth yn cyfoethogi ansawdd bywyd
- Addasiadau i'r cartref
- Cynlluniau gofal a thrwsio

## Beth sy'n gweithio'n dda i bobl ifanc:

- Boddhad cyffredinol gydag ansawdd y gofal a'r gefnogaeth
- Hapusrwydd cyffredinol am eu bywydau gyda gofalwyr cariadus a chefnogol
- Boddhad cyffredinol gyda'r ardaloedd y maen nhw'n byw ynddynt
- Canmoliaeth i weithwyr cymdeithasol cefnogol ac ymroddgar
- Teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal
- Boddhad cyffredinol gyda'r wybodaeth a'r cyngor gan weithwyr cymdeithasol a gofalwyr
- Teimlo'u bod yn cael eu parchu

## Beth sy'n gweithio'n dda i ofalwyr:

- Cymorth priodol i'r gofalwr a'r defnyddiwr gwasanaeth
- Teimlo'u bod yn cael rhan mewn penderfyniadau
- Addasiadau da i eiddo
- Teimlo'n ddiogel
- Cefnogaeth dda gan y darparwr cyfarpar anabledd NEWCES
- Cyngor a gwybodaeth da
- Cael teuluoedd cefnogol

## Beth sydd angen ei wella i oedolion:

- Ceisiadau am fwy o addasiadau
- Anfodlonrwydd â thaliadau gwasanaeth
- Problemau gyda chyfathrebu, yn enwedig cydlynu gwybodaeth yn fewnol
- Anfodlonrwydd ag amseroedd aros neu gymhwysedd i wasanaethau

# Adran 3: Sut Mae Pobl yn Ffurfio'n Gwasanaethau?

- Anghytundeb â phenderfyniadau'r gwasanaethau cymdeithasol am sut y darperir gofal
- Gwell cysondeb mewn gweithwyr cymorth i ymweliadau parhaus

## Beth sydd angen ei wella i bobl ifanc:

- Gwell cynhwysiant cymdeithasol a mwy o weithgareddau i bobl ifanc a phobl ifanc ag anableddau
- Newidiadau llai aml mewn gweithwyr cymdeithasol dynodedig
- Gwell trefniadau cyswllt

## Beth sydd angen ei wella i ofalwyr:

- Gwell gwiriadau dilynol wrth i'r rolau gofalu fynd yn eu blaen
- Gwell cefnogaeth i'r gofalwr wedi i'r pecynnau cymorth ddod i ben.
- Gwell gwasanaethau seibiant i bobl sy'n cael eu gofalu amdanynt.
- Gwell hygyrchedd yn yr awyr agored.
- Mwy o ryngweithio cymdeithasol a chymryd rhan mewn gweithgareddau i ofalwyr

Ein cam nesaf yw adolygu'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym ac yn ystod 2018/19 byddwn yn adnabod yr hyn sydd angen i ni ei wneud i ddatblygu'n gwasanaethau a'n dull gweithredu mewn ymateb i'r adborth a roddwyd i ni.

Mae pobl yn cymryd rhan mewn ffurfio'n gwasanaethau mewn nifer o ffyrdd. Rydym yn defnyddio arolygon o sawl gwasanaeth y Cyngor yn barhaus i ddarganfod beth sydd gan bobl i'w ddweud ac enghraifft o hyn yw'r arolwg Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCES). Rydym yn falch i'ch hysbysu fod NEWCES ar hyn o bryd yn rhagori ar y dangosyddion perfformiad cenedlaethol i wasanaethau cyfarpar cymunedol yng Nghymru. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion yn gadarnhaol eleni ac o ganlyniad ni wnaed unrhyw newidiadau uniongyrchol i'r gwasanaeth hwn, mae ein sylw felly ar gynnal perfformiad rhagorol.

Fodd bynnag, rydym yn gweithio'n galed i wneud y newidiadau y mae pobl eu heisiau mewn gwirionedd. Er enghraifft, rhannodd un o ddefnyddwyr ein gwasanaethau cymorth iechyd meddwl syniad i weithio gyda ni i ddatblygu busnes bychan lle y gallai pobl ennill cyflog go iawn mewn amgylchedd cefnogol. Arweiniodd hyn at ddylunydd yr adroddiad hwn, Double Click Design and Print, yn dod yn fenter gymdeithasol yn annibynnol ar y Cyngor. Dechreuodd pobl a oedd yn defnyddio ac yn gweithio yn y gwasanaeth ymchwilio i sut y gallai Double Click gynnig cyfleoedd realistig tra'n cefnogi pobl drwy eu siwrne o adferiad. Dewiswyd model cwmni cymdeithasol, sy'n cyfuno cyfleoedd y farchnad a chenhadaeth gymdeithasol, ac mae'r holl elw a gynhyrchir yn mynd yn ôl i ddatblygu'r busnes.

Mae'n hymrwymiad i wella canlyniadau i bobl ifanc yn golygu fod angen i ni ganfod sut maen nhw'n teimlo am eu cefnogaeth, y bobl maen nhw'n eu hadnabod, eu hawliau a'u cyfleoedd. Er mwyn gwneud hyn rydym yn gweithio gyda Coram Voice a Phrifysgol Bryste ar raglen o'r enw Bright Spots. Nod y rhaglen yw gwella lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal drwy hyrwyddo arferion sy'n cael effaith gadarnhaol arnyn nhw. Wedi'i hariannu gan Gomisiynydd Plant Cymru, mae'n golygu dosbarthu arolwg o'r enw 'Eich Bywyd, Eich Gofal' i blant sy'n derbyn gofal rhwng 4-18 oed. Cynhaliwyd ein harolwg rhwng Chwefror a Mawrth 2018 ac, wedi i'r canlyniadau ddod i mewn, byddwn yn gweithredu ar farn ein plant a phobl ifanc.

# Adran 3: Sut Mae Pobl yn Ffurfio'n Gwasanaethau?

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae penodi Swyddog Cyfranogiad i blant dan ofal yn ddiweddar yn golygu ein bod yn parhau i wrando'n uniongyrchol arnyn nhw. Mae'n fforwm plant, sydd wedi hen sefydlu, lle mae pobl ifanc yn cwrdd ag aelodau etholedig, wedi bod yn allweddol i wneud sawl newid i wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys newid fformat adolygiadau plant a gwella'r ddarpariaeth o brydau poeth mewn ysgolion. Dylanwadodd y fforwm hwn hefyd ar benodi'r Swyddog Cyfranogiad sy'n cynnal cyfarfodydd bob pythefnos a grŵp cyfranogiad o bobl ifanc. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys y newidiadau arfaethedig i offerynnau asesu ac ymgynghoriadau cenedlaethol. Mae'r grŵp cyfranogiad eisoes wedi helpu i ddatblygu strategaeth rianta gorfforaethol ac wedi cefnogi ymatebion y Cyngor i'r Cynllun Asesu Anghenion y Boblogaeth. Rhoddodd pobl ifanc adborth hefyd ar y ddogfen cynllun llwybr y bydd plant sy'n derbyn gofal yn ei chael wrth adael gofal, gan sicrhau fod yr wybodaeth ar hon yn bwysig iddyn nhw.

## Sut rydym yn gweithio

Felly mae casglu adborth a gweithredu arno yn rhan bwysig o'n siwrne wella. Yr un mor bwysig yw datblygu arferion gweithio sy'n gwella ansawdd trwy gyfranogiad. Mae'n Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Chymorth Teulu yn defnyddio'r Model Partneriaeth Teulu sy'n rhoi cyfle ar y cyd i rieni ac ymarferwyr werthuso pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth a gwneud penderfyniadau cyffredin am y camau nesaf.

Yn y gwasanaethau anabledd dysgu mae grŵp cynllunio strategol sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, rhieni a chynrychiolwyr o'r trydydd sector. Mae gan bobl ag anableddau dysgu bwyllgorau o fewn eu lleoliadau gwaith â chymorth ac maent yn cael eu helpu gan grwpiau adfocatiaeth i rannu eu barn. Yna daw eu hadborth i'r grŵp cynllunio ac fe'i defnyddir i lywio datblygiadau i'r dyfodol. Enghraifft o hyn yw pobl a oedd yn dymuno datblygu eu sgiliau arwain a gafodd eu cefnogi i gadeirio yn hytrach na chyd-gadeirio'r cyfarfodydd cynllunio hyn. Caiff y defnyddwyr gwasanaeth ran mewn recriwtio hefyd, ac mewn gwasanaethau iechyd meddwl gwneir hyn drwy ddefnyddio Prosiect Involve. Gyda chefnogaeth Unllais, mudiad trydydd sector, caiff unigolion a'u teuluoedd eu hyfforddi i gymryd rhan ystyrlon mewn prosesau recriwtio. Mae hyn wedi cynnwys cyfweld ar gyfer swydd rheolwr y Sir sy'n arwain ein timau iechyd meddwl cymunedol integredig (CMHT).

Mae Sir y Fflint ar y blaen o ran datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS), ac o'r cychwyn mae hwn wedi datblygu gyda phobl sydd ag awtistiaeth a'u rhieni/gofalwyr. Maent wedi gweithio gyda ni ar bopeth, yn cynnwys recriwtio (aelodau llawn o'r panel), hyfforddiant staff, llwybrau a gweithdrefnau. Mae pobl wedi diffinio eu disgwyliadau ac maent yn gweithio ar y grwpiau gweithredol a llywio gyda swyddogion, yn rhannu ym mhob un o'r penderfyniadau am y Gwasanaeth. Er ein bod yn y camau cynnar o ddatblygu'r gwasanaeth hwn a heb gadarnhau'r gwahaniaeth a wna eto, mae manteision cyfranogiad ystyrlon yn ein gwaith cynnar wedi cael ei adnabod yn gadarnhaol gan bobl ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Dywedodd un gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda ni:-

***"Roeddwn yn meddwl ei fod yn ddiddorol iawn fod cymaint o waith caled yn cael ei wneud i helpu pobl fel fi".***

# Adran 3: Sut Mae Pobl yn Ffurfio'n Gwasanaethau?

Yn y gwasanaethau pobl hŷn, mae barn Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi bod yn allweddol i yrru rhai o'r newidiadau a wnaethom. Un o ddisgwyliadau'r Comisiynydd, fel ag yr amlygwyd yn ei hadolygiad yn 2014 'Lle i'w Alw'n Gartref', oedd y dylai Cynghorau gael ffyrdd effeithiol o ganfod barn pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a'u teuluoedd a defnyddio'r rhain i gefnogi gwelliant parhaus. Deilliodd y rhaglen uchelgeisiol, 'Creu Lle o'r enw Cartref.. Cyflawni'r hyn sy'n Bwysig' o hyn. Mae'n Tîm Contractau a Chomisiynu wedi cefnogi darparwyr gofal i ddefnyddio ystod o offerynnau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n helpu staff i newid y ffordd y maent yn gweithio, gan alluogi pobl sy'n derbyn gofal a chymorth i gael mwy o ddewis a rheolaeth yn eu bywydau. Ers i'r rhaglen ddechrau y llynedd mae deg cartref preswyl wedi cael achrediad mewn ymarfer canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae cartrefi eraill yn anelu at hyn a bydd y rhaglen bellach yn cael ei hymestyn i'n gwasanaethau gofal yn y cartref a nyrsio. Cafwyd canmoliaeth i'r dull hwn gan y Comisiynydd Pobl Hŷn, pan ddywedodd:-

*"Rwyf mor falch o weld fod Sir y Fflint yn cymryd camau mor rhagweithiol i hyrwyddo materion ansawdd bywyd mewn cartrefi gofal yn yr ardal, drwy ei gynlluniau 'Creu Lle o'r enw Cartref' a 'Cyflawni'r Hyn sy'n Bwysig'. Ceir tystiolaeth fod hyn yn cael ei gyflawni mewn gwir ysbryd partneriaeth, ac yn mynd ati o ddifrif i gynnwys staff a phreswylwyr cartrefi gofal".*

## Cynllunio gyda Phartneriaid

Rydym yn parhau i weithio'n galed gyda'n partneriaid trydydd sector i gefnogi darpariaeth gofal o safon. Enghraifft o hyn yw gyda'n gwasanaethau gofalwyr, lle defnyddiom arbenigedd y Grŵp Strategaeth Gofalwyr i adolygu'r gwasanaethau hyn a chyflwyno newidiadau. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau mynediad tecach i grantiau gofalwyr ac ymrwymiad i wella cefnogaeth i ofalwyr pobl sydd â phroblemau camddefnyddio alcohol a sylweddau.

Yn y gwasanaethau iechyd meddwl rydym yn adolygu'n cytundebau lefel gwasanaeth â phartneriaid y trydydd sector yn rheolaidd. Gwnawn hyn drwy gyfarfod â nhw, defnyddwyr y gwasanaethau a'u gofalwyr. Mae ymestyn ein rhaglen wirfoddoli Step Up Step Out yn enghraifft o newid a waned yn dilyn adolygiad. Dywedodd yr adborth wrthym ba mor boblogaidd yw'r rhaglen hon ac o ganlyniad fe ddefnyddiom grant oedd ar gael i'w hymestyn i gynnwys pobl ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig. Mae hon yn weithredol erbyn hyn. Dywedodd gofalwr un o ddefnyddwyr y gwasanaeth hwn wrthym sut mae hyder ei phlentyn wedi tyfu a'i bod yn mwynhau agwedd gymdeithasol y rhaglen. Dywedod:-

*"Ei bod yn cynnig dull gwerthfawr o gefnogaeth i grŵp bregus o oedolion sy'n aml yn teimlo'n ynysig ac yn ddi-gefnogaeth."*

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

**Ers i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (GCLI) gael ei chyflwyno ar 6 Ebrill 2016 mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu newydd yn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn gosod allan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella lles pobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Rydym eisiau gwybod bellach beth sy'n bwysig i bobl sy'n byw yn Sir y Fflint fel bod eu penderfyniadau'n ffurfio'r gofal a'r cymorth a dderbyniant. Pwrpas hyn w rhoi dewis a rheolaeth i bobl, a'u galluogi, gyda chefnogaeth ein gwasanaethau, i gyrraedd eu deilliannau lles eu hunain.**

Yn yr adran hon, byddwn yn rhoi crynodeb o ba mor dda rydym wedi perfformio yn ystod 2017/18, gan ddathlu'n llwyddiannau ond hefyd tynnu sylw at unrhyw heriau a wynebwyd gennym. Byddwn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau a adnabuom y llynedd ond byddwn hefyd yn gwneud sylwadau ar weithgareddau perthnasol eraill, pob un ohonynt ynghlwm ag un o'r chwe Safon Ansawdd Genedlaethol.

## SAG 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r deilliannau lles y mae pobl yn dymuno'u cyflawni.

### Paratoi ar gyfer y Ddeddf

Y llynedd fe ddywedon ni mai un o'n blaenoriaethau yn 2017/18 fyddai sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf GCLI drwy'n polisïau a'n gweithdrefnau ac rydym wedi gweithio i ddatblygu polisïau rhanbarthol sy'n cefnogi ei phrif themâu. Mae'r rhain yn cynnwys asesiad a chymhwyster, taliadau uniongyrchol, cwynion, adfocatiaeth ac ymgysylltu â'r defnyddwyr gwasanaeth. Yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant, datblygwyd cyfres lawn o ddogfennau asesu, cynllunio cymorth ac adolygu. Mae'n tîm Datblygu'r Gweithlu yn gweithio'n galed i gefnogi staff gyda'r newidiadau hyn, fel yr eglurwn yn adran 5.

Fe ymrwymon ni hefyd i barhau i ddatblygu'n harferion gweithio a'r ffordd yr ydym yn cynnwys y bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau. O fewn y Gwasanaethau Oedolion, mae'n tîm Un Pwynt Mynediad (SPOA) yn parhau i gael y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gyda phobl sy'n chwilio am wybodaeth, cyngor a chymorth, gan ganolbwyntio ar gryfderau pobl, atal ac ymyrraeth gynnar. Mae swydd Cydlynydd y Trydydd Sector yn rhan o SPOA erbyn hyn, sy'n cynnig arbenigedd ar y cyfleoedd sydd ar gael i fodloni anghenion dinasyddion drwy ddefnyddio asedau cymunedol a chefnogaeth drwy'r trydydd sector. Mewn cyfnod o ddeuddeg mis derbyniodd 3,400 o oedolion wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn Sir y Fflint, ac, o'r rhain, ni fu'n rhaid i 72% gysylltu â'r gwasanaethau hyn eto.

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

Yn y Gwasanaethau Plant, rydym wedi sefydlu Tîm Cyswllt Cyntaf sy'n dwyn ynghyd Hwb Help Cynnar, cynllun amlasiantaeth newydd, ein Tîm o Amgylch y Teulu, drws blaen ein plant. Mae'r tîm wedi'i gyd-leoli gyda'n Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor amserol ac eang am y cymorth sydd ar gael i deuluoedd yn Sir y Fflint. Mewn cyfnod o ddeuddeg mis, cysylltodd 16,000 o bobl â'r Gwasanaeth ar y ffôn gyda nifer eraill yn cael gwybodaeth drwy wefan Sir y Fflint. Lle'r oedd plant a theuluoedd angen cymorth a chefnogaeth, llwyddom i gwblhau 70% o asesiadau o fewn y terfynau amser statudol. Yn ystod 2018/19 rydym eisiau gweld gwell prydlondeb asesu i blant a theuluoedd a bydd hwn yn faes y byddwn yn ei adolygu drwy'n trefniadau rheoli perfformiad.

Dywedodd mwyafrif y bobl a gymerodd ran yn ein Harolwg Dinasyddion 2017/18 eu bod wedi cael yr wybodaeth a'r cyngor iawn, yn teimlo'u bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, a bod ein gwasanaethau wedi dangos urddas a pharch tuag atynt. Gan adeiladu ar hyn, rydym wedi datblygu'n system wybodaeth i gleientiaid, 'Paris' fel ein bod bellach yn cofnodi deilliannau yng ngeiriau'r bobl eu hunain. Golyga hyn ein bod yn gwella o ran adlewyrchu gwir effaith ein gwaith ar fywydau pob dydd.

Mae'r darn hwn, a gofnodwyd mewn cais am gymorth ail-alluogi i'n panel adnoddau, yn rhoi enghraifft o'r math o beth:-

***"Y broblem ydi dwi wedi bod yn gorweddian yn yr ysbyty ... a dwi'n meddwl fod hynna wedi mynd â'm gallu i, os `da chi ddim yn ei ddefnyddio mae'n mynd. Allan o 10 dwi'n 1 ar hyn o bryd, yn anelu at 6 neu 7, byddai hynna'n golygu gwella cryfder rhan ucha fy nghorff a mynd ar fy sgwter fel byswn i'n gwneud, ro'n i'n paratoi bwyd a diod ar hwnnw o'r blaen".***

## Bod yn barod i RISCA

Rhoddwyd llawer o sylw yn y flwyddyn ddiwethaf i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a adnabyddir fel RISCA, sy'n adlewyrchu sut mae gofal cymdeithasol yn newid a'i sylw ar ansawdd a gwelliant. Mae yna bum prif newid o dan y Ddeddf:

- Mae'r Ddeddf yn sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru
- Rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol
- Rheoleiddio darparwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol
- Agwedd newydd at arolygu awdurdodau lleol a sut maen nhw'n adrodd yn ôl
- Gofynion ar awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru o safbwynt sefydlogrwydd y farchnad a throsolwg.

Drwy gydol datblygu'r rheoliadau i gyd-fynd â RISCA buom yn gweithio gyda holl ddarparwyr gwasanaethau gofal preswyl, nyrsio ac yn y cartref yn Sir y Fflint i wneud yn siŵr fod eu lleisiau'n cael eu clywed. Agorodd ymgynghoriad Cam 2 ar weithredu RISCA ddechrau Mai 2017 a chynhaliom ddau weithdy gyda'r darparwyr gofal hyn i gael eu hadborth ar y rheoliadau arfaethedig. Mae'r ymgynghoriadau hyn wedi dylanwadu ar rai o weithredoedd ein Tîm Datblygu'r Gweithlu eleni, yn arbennig y gwaith a wnaed i gefnogi'r gweithlu cartref i baratoi i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, a'r cymorth a roddwyd i ddarparwyr gofal i wella'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer rôl newydd bwysicach yr Unigolyn Cyfrifol.

Mae RISCA wedi rhoi mwy o bwyslais ac atebolrwydd ar rôl yr Unigolyn Cyfrifol a'r gofynion am fonitro ac adrodd yn ôl trwyadl a rheolaidd yn y gwasanaethau gofal i gyd. Rydym wedi cydnabod hyn ac wedi adolygu'n

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

strwythur uwch reolaeth ein hunain, gan sefydlu rôl reoli newydd yn y gwasanaethau oedolion i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth yn llawn.

Mae'n gwasanaethau mewnol yn paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf gyda'r ddogfennaeth i gyd, yn cynnwys y Datganiad o Ddiben, yn cael eu hadolygu a'u diweddaru. Rydym hefyd yn datblygu'n proses sicrhau ansawdd fel ei bod yn dal deilliannau lles i bobl, tasg sy'n cynnig heriau yma a thrwy'n datblygiadau gwasanaeth. Mae gwelliannau corfforol, yn ôl eu natur, yn haws eu mesur na gwelliannau mewn lles emosiynol, serch hynny rydym yn dal i roi sylw drwy'n gwaith ar fesur yr effaith gwirioneddol y mae'n gwasanaethau'n ei chael ar les emosiynol yn ogystal â chorfforol pobl. Mae'r enghreifftiau a ddangoswn yn erbyn SAG2 yn tystio i hyn.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

**Parhau â'n gwaith i baratoi gogyfer gweithredu RISCA.**

**Gwneud yr wybodaeth ar ein gwefan yn fwy ystyrlon i unigolion i'w helpu i ganfod yr wybodaeth gywir i gefnogi eu lles.**

**Datblygu ein prosesau asesu ansawdd a chynllunio gofal ymhellach ar draws y timau gwaith cymdeithasol.**

## SAG2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

## Gofal yn Nes at Adref

Mae iechyd da a ffyrdd iachus o fyw yn bwysig ar gyfer llesiant. Rydym wedi bod yn gweithio gyda gwasanaethau eraill y Cyngor, mudiadau partner a grwpiau o bobl sy'n byw yn Sir y Fflint i ddatblygu gwasanaethau cost-effeithlon sydd o fudd i'r bobl sy'n eu defnyddio.

Rydym yn dal wedi ymrwymo i ddarparu 'gwelyau camu i fyny, camu i lawr' yn ein cartrefi gofal mewnol ac annibynnol. Caiff y gwasanaeth hwn ei ariannu gan y gronfa gofal integredig ac mae'n cynnig cyfnod o asesiad pellach i bobl tra'n ceisio cadw pobl allan o'r ysbyty ac yn nes at adref. Ym mlwyddyn ariannol 2017/18, derbyniwyd cyfanswm o 219 o bobl i'r gwelyau hyn. O'r rhain, roedd 79 yn camu i fyny (derbyn o'r gymuned) a 140 yn camu i lawr (derbyn o'r ysbyty). Tan 1 Ebrill, roedd y rheiny oedd wedi cael eu derbyn yn y flwyddyn wedi treulio cyfanswm o 5,864 o nosweithiau yn y gwelyau a ddarparwyd. O'r rheiny a ryddhawyd yn y flwyddyn, aeth 93 adref, 16 i ysbyty, 69 ymlaen i ofal tymor hir a chafodd 25 asesiad pellach.

Oed cyfartalog oedolion yn mynd i gartrefi gofal preswyl yn barhaol yn Sir y Fflint yn 2017/18 oedd 86 oed. Ein cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal (pobl dros 74 oed) am resymau gofal cymdeithasol oedd 0.189%. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru, sef 0.49% ac yn golygu fod 25 o bobl hŷn yn Sir y Fflint wedi aros yn yr ysbyty yn hirach nag oedd angen yn 2017/18.

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

Rydym yn sicrhau fod ein plant sy'n derbyn gofal yn cael mynediad at ofal iechyd sylfaenol drwy eu cofrestru â Meddyg Teulu lleol, a'n nod yw cofrestru pob plentyn o fewn 10 diwrnod i ddechrau eu lleoliad. O ran cefnogaeth gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) cawsom wybod y bydd pob plentyn dan ofal sy'n cael cyfeiriad priodol at y gwasanaeth yn cael eu gweld o fewn 28 diwrnod. Mae hyn yn welliant sylweddol i'r cohort hwn o blant a phobl ifanc ac mae i'w groesawu. Mae'r terfynau amser ar gyfer helpu plant a phobl ifanc ag anghenion niwrolegol/ymddygiadol yn faes y byddwn yn ei adolygu gydag iechyd i sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael cefnogaeth tra'u bod yn disgwyl am asesiad. Gwyddom hefyd fod angen gwaith pellach gan ein cydweithwyr iechyd i sicrhau fod asesiadau iechyd prydlon i'n plant sy'n derbyn gofal.

Gyda'i sylw ar bartneriaeth ac atal mae'r Ddeddf GCLl wedi siapio un arall o'n prif flaenoriaethau eleni, sef parhau i weithio mewn ffordd integredig gyda'r gwasanaethau iechyd fel bod pobl yn cael eu trin yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Dangosodd ymchwil y gall darparu cyfnodau byr o gefnogaeth ddwys yng nghartrefi pobl wella gofal y claf, lleihau'r tebygrwydd o dderbyniadau drud i'r ysbyty a gostwng nifer yr oedi wrth ryddhau o'r ysbyty. Mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol (CRT) yn bartneriaeth rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Mae'n rhan annatod o'r hyn a wnawn i weithredu'r agenda 'Gofal yn Nes at Adref', blaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae nyrsys, therapyddion a gweithwyr gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r CRT yn cynnig gwasanaeth saith diwrnod ac mae mynediad at y gefnogaeth hon ar gael i unrhyw un dros 18 sydd ag anghenion iechyd a chymdeithasol lluosog sydd mewn perygl o fynd i'r ysbyty neu a fyddai'n elwa ar gael eu rhyddhau'n gyflym o'r ysbyty. Yn 2017/18 amcangyfrifodd y tîm ei fod wedi atal dros 2,500 o nosweithiau gwely drwy'r gefnogaeth hon. Dylai'r ffigwr godi gyda'r tîm yn ehangu eto yn 2018/19. Integreiddiwyd y Tîm o fewn SPOA sydd bellach ar agor i'r cyhoedd ac ymarferwyr proffesiynol drwy un rhif ffôn cyswllt, 01352 804443. Estynnwyd yr oriau agor a dyma nhw:-

Y cyhoedd:  8.30 am – 5 pm, dydd Llun i ddydd Gwener.
Cyfeiriadau iechyd: 8 am – 5.45 pm, dydd Llun i ddydd Gwener
(edrychwch allan am ymestyn hyn i'r penwythnos)

**Mae'r effaith y mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn ei gael o ran deilliannau i bobl yn cael ei darlunio gan yr astudiaeth achos yn Atodiad 1.**

Yn y Gwasanaethau Plant rydym wedi dechrau'n blwyddyn gyntaf o'n prosiect Dychwelyd ac Atal (RAP). Partneriaeth yw'r gwasanaeth hwn rhwng Cyngor Sir y Fflint, y Bwrdd Iechyd, Gweithredu dros Blant a Chyngor Wrecsam. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth therapiwtig dwys wedi'i dargedu, i bobl ifanc sydd mewn perygl o'u lleoliad yn chwalu. Rhoddir cymorth i gynnal lleoliadau cymunedol, maeth, preswyl a mabwysiadu.

## Beth sy'n bwysig i ofalwyr

Yn ogystal â'n cyfrifoldebau tuag at y bobl sy'n byw yn Sir y Fflint sydd angen gofal a chymorth, mae'n rhaid i ni hefyd wneud yn siŵr fod y bobl sy'n darparu gofal a chefnogaeth ddi-dâl, yn bennaf teulu a ffrindiau, yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw.

Eleni buom yn gweithio ar symleiddio'r prosesau sy'n adnabod gofalwyr ac yn rhoi mynediad iddynt at gyngor a chefnogaeth. Mae'n proses gyfeirio o SPOA i Wasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) wedi cael ei chyflymu ac mae bellach yn galluogi rhoi

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

gwybodaeth a chyngor i ofalwyr wrth iddyn nhw wneud y cysylltiad cyntaf â ni, gan gael eu cyfeirio'n uniongyrchol at NEWCIS os ydynt yn dymuno hynny. Drwy ddefnyddio'r sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', cynhelir asesiad gyda'r gofalwr, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda'r sawl y maen nhw'n gofalu amdano. Mae'r asesiad yn gymesur, yn canolbwyntio ar gryfderau'r gofalwr ac yn eu cynorthwyo i gymryd rhan lawn yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Yn 2017/18, adnabuwyd 1,885 o ofalwyr drwy SPOA a'u cyfeirio at NEWCIS.

Nod ein Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yw gwella hyder a gwytnwch emosiynol ein pobl ifanc rhwng pump a deunaw oed sy'n darparu gofal a chymorth. Mae'n rhoi amgylchedd diogel iddynt lle y gallant dynnu ar gefnogaeth eu cymheiriaid ac mae hefyd yn rhoi mynediad i grwpiau cymunedol i'w helpu i gynnal eu cyfrifoldebau gofalu yn y tymor hir. Wedi iddynt gael eu rhyddhau, gallant gael eu hail-gyfeirio at y gwasanaeth os yw amgylchiadau'n mynd yn anodd neu os ydynt angen cefnogaeth fwy dwys. Rydym eisiau helpu i wneud yn siŵr fod gwasanaethau gofalwyr ar draws y rhanbarth yn deg ac yn parhau i gyfrannu at adolygiad Gogledd Cymru o wasanaethau gofalwyr drwy edrych am gyfleoedd i weithio a rhannu arfer da gyda Chynghorau cyfagos.

Yn lleol, mae'n Cynllun Gweithredu Strategaeth Gofalwyr wedi cael ei ddiweddaru gyda gweithredoedd newydd i ni, yn cynnwys dull sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau wrth werthuso pa mor effeithiol yw'n gwasanaethau gofalwyr. Bydd cyflwyno deilliannau perfformiad newydd i'r gwasanaeth gofalwyr yn dweud wrthym a yw'r pethau sy'n bwysig i ofalwyr yn cael eu cyflawni ai peidio a byddwn yn rhoi tystiolaeth o hyn y flwyddyn nesaf. Yr hyn a wyddom, yn seiliedig ar y data perfformiad sydd gennym yn barod, yw bod ein gwasanaethau gofalwyr yn gweithio'n dda drwyddi draw.

Dywedodd ein Harolwg Dinasyddion 2017/18 wrthym fod gofalwyr yn Sir y Fflint yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth, yn cael eu cynnwys a'u bod yn ddiogel. Mynegodd rhai gofalwyr, fodd bynnag, bryderon am deimlo'n unig wedi i becyn cymorth ddod i ben, anawsterau i fynd allan a gorfod rhoi'r gorau i ddiddordebau a gweithgareddau oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Byddwn yn sôn mwy yn yr adran hon am rai o'n cynlluniau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

## Eich Cyngor, eich gwasanaethau

Rydym eisiau gwneud yn siŵr y gall pobl sy'n byw yn Sir y Fflint gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau a allai fod o fudd iddyn nhw. Mae'n prosiect Gweithiwr Ymgysylltu â Phobl Hŷn yn rhoi cyfleoedd i grwpiau pobl hŷn gyfrannu at gynllunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau. Mae'r prosiect hwn wedi datblygu rhwydwaith o dros 50 o fforymau a grwpiau pobl hŷn yn y sir ac mae'n rhoi cefnogaeth i Grŵp Gweithredu 50+ Sir y Fflint, gan helpu i godi ei broffil ymhlith pobl hŷn drwy gynhyrchu a dosbarthu ei newyddlen chwarterol 'Codger's Quarterly', a chynllunio digwyddiadau fel dathliad Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Rhoddir cyfleoedd i aelodau'r Grŵp Gweithredu gynrychioli barn pobl 50+ oed yn y sir drwy eistedd ar bwyllgorau a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar wasanaethau, gyda chyfleoedd diweddar yn cynnwys ymgynghoriad 'Mynediad at wasanaethau Meddyg Teulu' y Comisiynydd Pobl Hŷn ac arolwg y Bwrdd Iechyd 'Byw'n Iach, aros yn iach: adeiladu cynllun i bobl hŷn.'

Yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol, mae'r Cyngor yn gyffredinol yn parhau i hyrwyddo ffyrdd o fyw iach drwy ddatblygu cynlluniau sy'n helpu pobl i fod yn weithgar ac aros mewn cysylltiad ag eraill. Dyma rai enghreifftiau:

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

## Bod yn oed-gyfeillgar, bod yn wydn

Ym mis Hydref 2016, gwnaeth Cyngor Cymuned Coed-llai a Phontblyddyn ymrwymiad i fod yn oed-gyfeillgar gyda chymorth gan Gydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn Sir y Fflint a'r Gweithiwr Ymgysylltu â Phobl Hŷn. Mae'r cynllun hwn, sy'n cael ei gefnogi gan sawl prosiect a ariennir gan y Loteri Fawr, yn edrych ar effaith gweithgareddau yn y gymuned sy'n cael eu harwain gan bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, gan gasglu gwybodaeth o bob math o weithgareddau ymgysylltu gyda grwpiau lleol. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i adnabod y blaenoriaethau i'r gymuned a fydd yn galluogi pobl sy'n byw ynddi i heneiddio'n dda ac mae'n tynnu sylw at y sgiliau lleol, yr arbenigedd a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi cymunedau drwy'r broses oed-gyfeillgar.

Mewn adegau o newid mawr, mae byw mewn cymunedau sydd â'r gallu i ymateb i heriau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yn bwysig. 'Ysbrydoli Gwytnwch Cymunedol' yw un o'r blaenoriaethau a nodwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint, gan y profwyd fod lefelau uchel o wytnwch yn galluogi cymuned i ffynnu yn wyneb sialens. Mae gweithgor wrthi'n datblygu fframwaith ar gyfer sut y gall gwaith gwytnwch cymunedol yn Sir y Fflint gael ei arwain a'i gydlynu ac rydym yn gobeithio y bydd deilliannau'r prosiect yn dod â gwelliannau mesuradwy i wytnwch cymunedol o safbwynt amgylcheddol, iechyd, cymdeithasol a diwylliannol.

## Cludiant cymunedol: aros mewn cysylltiad

Mae cludiant cymunedol yn ddiogel, yn hygyrch, yn gost-effeithlon ac yn hyblyg. Mae'n cael ei ddatblygu yn Sir y Fflint i fynd i'r afael yn uniongyrchol â bylchau yn y ddarpariaeth cludiant cymunedol ac mae o werth arbennig i bobl nad oes ganddynt fynediad at gar neu drafnidiaeth gyhoeddus. Credwn y gall ein Cynllun Cludiant Cymunedol helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol i bobl sy'n byw yn ein hardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd.

Adnabuwyd pum maes yn fras a fyddai'n elwa o'r cynllun, wedi edrych ar fylchau yn y ddarpariaeth bresennol a diffygion posibl yn y dyfodol. Mae ystod o gynlluniau'n cael eu datblygu sy'n mynd i'r afael â'r bylchau hyn. Un enghraifft yw'r cynllun Bws Tacsi, sef gwasanaeth bws rheolaidd sy'n cael ei redeg gan gerbyd Hacni trwyddedig neu weithredwr hurio preifat, yn defnyddio un o'u cerbydau nhw. Yn union fel gwasanaeth bws cyffredin, mae'n mynd ar hyd llwybr penodedig ac i amserlen. Gall defnyddwyr gyrraedd man stopio penodol fel arfer, a thalu pris tebyg i bris tocyn bws arferol. Gall teithwyr ddefnyddio'u cardiau teithio rhatach hefyd. Newydd ei gyflwyno hefyd y mae Gwasanaeth 'Ring and Ride' Sir y Fflint. Gwasanaeth drws-i-ddrws yw hwn sy'n defnyddio ceir neu fysiau mini i bobl sydd angen teithio i'w meddygfa neu i apwyntiadau iechyd eraill ac yn ei chael yn anodd defnyddio cludiant prif ffrwd. Sicrhawyd cyllid grant hefyd drwy'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig i brynu dau fws mini i ddatblygu cynllun bws cymunedol yn ardaloedd yr Wyddgrug a Threffynnon. Gall y cynlluniau gael eu rhedeg naill ai ar sail galw neu fel gwasanaethau trafnidiaeth llwybr arbennig i amserlenni a gyhoeddwyd, ar gael i'r cyhoedd fel y byddai gwasanaeth bws lleol.

## Llesiant a'r celfyddydau

Rydym yn ffodus iawn yn Sir y Fflint fod gennym ganolfan gelfyddydau ranbarthol, Theatr Clwyd, yn yr Wyddgrug. Yn ogystal â lletya cwmnïau theatr mewnol a theithiol, mae'r theatr bellach yn datblygu prosiectau sy'n creu profiadau i wella iechyd a lles y bobl sy'n cymryd rhan ynddyn nhw. Dwy enghraifft yw Cwmni55 ac Arts from the Armchair.

Wedi'i sefydlu ym mis Medi 2017 mae Cwmni55 yn cynnig sesiwn wythnosol sy'n archwilio gwahanol agweddau o theatr greadigol. Erbyn hyn

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

mae ganddo 32 o aelodau dros 55 oed ac mae'n cynnig 'cynllun talu'r hyn a fedrwch', sy'n golygu ei fod ar gael i bawb. Cawsom adborth cadarnhaol iawn gan aelodau'r grŵp oedd yn sôn am yr effaith y mae cymryd rhan yn ei gael:

*"Amser gwerthfawr i fi fy hun, i ffwrdd o'm cyfrifoldebau gofalu – archwilio drama gyda phobl o'r un anian – a chael hwyl!"*

*"Cwmni55 wedi bod mor bleserus, yn rhoi cyfle i mi wedi bod yn gaeth i'r tŷ am 5 mlynedd fynd allan â chwrdd â phobl â diddordebau tebyg i gael hwyl a dysgu rhywbeth. Gwneud i mi ddefnyddio fy nghof yn fwy na dwi wedi gwneud ers ymddeol. GWYCH!!!"*

Mae Arts from the Armchair (AFTA) yn grŵp arall sy'n cwrdd yn wythnosol yn Theatr Clwyd. Partneriaeth yw hon rhwng y theatr a'r Bwrdd Iechyd, ac mae'r cyfranogwyr yn cael cyfeiriad clinigol drwy Glinig Cof Ysbyty Cymunedol yr Wyddgrug. Caiff y grŵp ei arwain gan gynhyrchydd creadigol, ac mae'n gwahodd actorion, cerddorion, gwneuthurwyr gwisgoedd, peintwyr set a thechnegwyr golau a sain er mwyn annog y cyfranogwyr i gymryd rhan. Dywedodd un wrthym:

*"Rydym yn dychmygu, cynllunio, penderfynu, meddwl, dewis a ffeindio. Drwy wneud y prosesau pwysig hyn rydym yn ail-gysylltu â'r gweithrediadau pwysig yma. Mae angen i ni stopio datgysylltu oddi wrthyn nhw."*

Mae'n gwasanaeth Flintshire Sounds yn parhau i gynnig therapi cerdd i bobl dros 65 oed sydd â phroblemau cof neu ddementia. Cânt eu hannog i ganu, chwarae offerynnau taro syml a symud a dawnsio lle bo modd. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyfle i bobl fwynhau rhannu atgofion gyda gofalwyr, teuluoedd a ffrindiau, ac mae'n gyfle i wneud ffrindiau newydd. Cynhelir tair sesiwn yr wythnos yn yr Wyddgrug, Shotton a Threffynnon.

## Llyfrgelloedd a hamdden: buddion cymunedol

Rydym yn gweithio i sicrhau fod gwasanaethau'r  Cyngor yn canolbwyntio ar y gymuned ac yn cael eu gwarchod pan allai pwysau ar y gyllideb arwain at golli neu leihau'r gwasanaethau hyn. Er mwyn cadw'i gyfleusterau llyfrgell a hamdden, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda staff i ddatblygu model cyflwyno amgen a fydd yn gynaliadwy i breswylwyr Sir y Fflint ac yn werth chweil i'r staff. Arweiniodd hyn at greu Aura, cymdeithas budd cymunedol di-elw, a gymerodd reolaeth dros y gwasanaethau hamdden, llyfrgell a threftadaeth yn y sir o 1 Medi 2017.

Nod Aura yw gwella ansawdd bywyd i gwsmeriaid drwy ddarparu cyfleoedd diwylliant a hamdden poblogaidd sy'n gwella lles meddyliol a chorfforol. Mae'n cynnig gwasanaeth llyfrgell wedi'i deilwra'n arbennig i'n preswylwyr sy'n gaeth i'w cartref ac i'r bobl sy'n byw yn ein cartrefi gofal preswyl. Mae hefyd yn cynnig dewis o gynhyrchion a gwasanaethau arloesol a luniwyd yn benodol i helpu'r rheiny sy'n byw gyda dementia yn ein cymunedau, er enghraifft casgliadau darllen dementia-gyfeillgar, podiau atgofion a blychau atgofion.

Gwasanaeth hamdden Aura sy'n cyflwyno Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff (NERS), sy'n cynnig dull wedi'i dargedu ac ataliol i alluogi pobl sydd â phroblemau iechyd neu sydd mewn risg sylweddol o ddatblygu afiechyd i gael cymorth i fod yn fwy egnïol. Mae'r cymorth a geir drwy'r cynllun yn gwneud byd o wahaniaeth i alluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol na fyddent yn gwneud fel arall. Mae'r gweithgareddau'n amrywio o ddosbarthiadau cylchol ysgafn, dosbarthiadau cryfder a chydbwysedd, gofal cefn, gweithgareddau iechyd y galon, Tai Chi, pêl-droed cerdded, bowls dan do, cerdded, nofio a gweithgareddau campfa. Mae'r amrywiaeth hon yn cyrraedd ystod eang o oedolion hŷn, yn cynnig gweithgaredd corfforol diogel a gyda chymorth iddynt mewn amgylchedd lle y gallant gymdeithasu a chael trefn reolaidd o weithgarwch corfforol. I lawer, mae mwy o annibyniaeth a chyswllt cymdeithasol yn golygu gwell ansawdd bywyd.

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

## Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

**Gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl y rhai sy'n gadael gofal, yn cynnwys ymrwymiad i'w helpu i fod yn barod ar gyfer gwaith.**

**Sicrhau fod pob un sy'n gadael gofal yn parhau i gael Cynghorydd Personol dynodedig i roi cefnogaeth ymarferol a chyngor i'w helpu i fyw'n annibynnol.**

**Ail-gomisiynu gwasanaeth cymorth cymunedol anabledd integredig gyda'r sector cymunedol.**

**Gweithredu'r argymhellion sydd yn y Strategaeth Gofalwyr.**

## SAG3: Cymryd camau i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

## Diogelu: beth rydym yn ei wneud

Mae gennym gyfrifoldeb dros sicrhau fod y gofal a'r gefnogaeth iawn yn cael eu trefnu i bobl sy'n byw yn Sir y Fflint sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth ac esgeulustod, a gweithio gyda nhw i wella eu lles.

Yn weithredol mae Uned Ddiogelu Sir y Fflint yn parhau i roi gwybodaeth, cyngor, canllawiau a chefnogaeth i'n timau mewnol, cyrff annibynnol a rhai'r sector cyhoeddus a'r cyhoedd. Mewn achosion eithafol, mae atal a rheoli risg yn mynnu bod yr Uned yn dilyn prosesau sy'n arwain at gosbi unigolion, gweithwyr gofal cymdeithasol neu sefydliadau a brofwyd eu bod yn achosi niwed i oedolion neu blant.

oedolion neu blant.
Eleni gwelsom gynnydd o 40% mewn ymholiadau amddiffyn oedolion oherwydd effaith y Ddeddf GCLl sy'n ail-ddiffinio'r term 'Oedolion mewn Risg' ac yn ehangu ei oblygiadau. Rydym wedi ymateb drwy ail-alinio'r adnoddau yn ein Huned Ddiogelu, a'r canlyniad yw bod 84% o ymholiadau am ddiogelu oedolion yn cael eu prosesu bellach o fewn y gofyniad statudol o saith diwrnod. Mae'r cyfeiriadau hynny sy'n cael eu prosesu y tu allan i'r amserlen hon yn rhai cymhleth ac yn disgwyl am wybodaeth bellach gan ymarferwr neu asiantaeth. Gall rheolwyr diogelu ddirprwyo tasgau'n effeithiol ar gyfer achosion blaenoriaeth uchel, sy'n golygu fod yr ymholiadau hynny nad ydynt yn cwrdd â'r amserlenni cenedlaethol o flaenoriaeth is o ran y risg bosibl i ddiogelwch a lles y bobl dan sylw.

Mae'r Uned hefyd yn rheoli'r rhestr aros am asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS). Mae awdurdodiadau brys ac adolygiad yn cael eu blaenoriaethu ac mae gwaith newydd yn cael ei wneud i adolygu ceisiadau DoLS cymunedol.

I blant, mae 91% o bob cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol yn digwydd o fewn y terfynau amser o'i gymharu â 74% y llynedd. Mae prydlondeb cynadleddau adolygu yn sefydlog ar 98%, er bod galw wedi cynyddu o ganlyniad i'r cynnydd diweddar yn niferoedd y plant ar y gofrestr amddiffyn plant. Yn y chwe mis diwethaf, dim ond tri ail-gofrestriad o blant a fu ar ein cofrestr amddiffyn plant, sy'n awgrymu ein bod yn dadgofrestru plant yn briodol. Tystiolaeth bellach o hyn yw'r amser y mae'r plant yn ei dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, sef deg mis.

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

## Diogelu: gwaith tîm

Rydym yn cydnabod y cyfraniad hollbwysig sydd gan wasanaethau eraill y Cyngor fel cludiant, addysg a hamdden mewn hyrwyddo lles a blaenoriaeth i ni eleni fu datblygu dull cyd-gysylltiedig o ddiogelu ar draws pob un o adrannau'r Cyngor. Caiff hyn ei lywio gan y Panel Diogelu Corfforaethol. Mae pob maes yn y Cyngor bellach yn deall eu cyfrifoldebau diogelu ac mae gan bob un berson arweiniol diogelu sy'n cael cynrychiolaeth ar y Panel, fel y mae aelodau etholedig. Caiff y Panel ei gyd-gadeirio gan y Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Swyddog Addysg ac Ieuenctid, trefniant sy'n hwyluso cydlyniant rhwng y ddau faes gwasanaeth hyn. Cafodd gwybodaeth am y Strategaeth Rhianta Corfforaethol, er enghraifft, ei chynnwys yn ddiweddar mewn cyflwyniad i Aelodau Etholedig, un o'r nifer o gamau sy'n ein helpu i wella cysylltiadau rhwng diogelu a blaenoriaethau eraill y Cyngor.

Mae'r Panel wedi bod yn canolbwyntio eleni ar ddatblygu Polisi Diogelu Corfforaethol newydd ac rydym yn falch o ddweud fod hwn wedi cael ei gadarnhau gan aelodau etholedig ym mis Hydref 2017. Caiff y polisi hwn ei gefnogi gan Gynllun Cyfathrebu Diogelu Corfforaethol sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan y Panel a'i ddefnyddio'n gyson.

I gyrraedd ein nodau mae nifer o weithgareddau allweddol wedi digwydd dros y deuddeg mis diwethaf sy'n cynnwys:

- Cyflwyno adran ddiogelu ar wefan y Cyngor a'r fewnrwyd sy'n ei gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth ac adnoddau.
  **flintshire.gov.uk/safeguarding**
- Cyflwyniad a wnaed gan aelodau'r Panel Diogelu Corfforaethol i 'Newid Cyfnewid', fforwm lle mae rheolwyr yn dod at ei gilydd i rannu a dysgu. Roedd hyn yn codi ymwybyddiaeth o ddiogelu ac yn tynnu sylw at rai o'r gweithredoedd sy'n cael eu gwneud gan ein gwasanaethau Strydlun, Trafnidiaeth, Cymuned a Menter i sicrhau fod diogelu yn rhan annatod o'r ffordd y maen nhw'n gweithio.
- Cyflwynwyd sesiynau ymwybyddiaeth i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid. Rhoddodd y sesiynau drosolwg i'r Aelodau o amrywiaeth diogelu a'u rôl o ran cadw oedolion a phlant yn ddiogel, a chafwyd cyfle i gael sesiwn holi ac ateb ar ddiwedd pob cyfarfod.
- Mae cytundebau gyda darparwyr cludiant yn Sir y Fflint bellach yn cynnwys cymal diogelu sy'n sicrhau eu bod yn mynychu hyfforddiant priodol. Mae'r tîm caffael hefyd wedi bod yn gweithio gyda'n gwasanaethau cyfreithiol mewnol i ddatblygu datganiadau diogelu a chymalau i bob gwasanaeth eu defnyddio o fewn y broses gaffael.
- I wneud hyfforddiant staff yn fwy hyblyg a hygyrch, ac i ategu'r hyfforddiant y mae'r Cyngor yn ei ddarparu'r barod, datblygwyd dau fodiwl e-ddysgu diogelu ac maent ar gael ar wefan Cronfa Ddysgu Academi Sir y Fflint. Mae'r modiwlau'n ymdrin â gwahanol arwyddion camdriniaeth, sut i godi pryderon a sut i gadw oedolion a phlant yn ddiogel. Caiff pob gweithiwr eu hannog i gwblhau'r modiwlau ac maen nhw bellach yn orfodol i ddechreuwyr newydd a phrentisiaid.

## Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

- Bu AFTA Thought, corff sy'n arbenigo mewn hyfforddiant drwy ddrama, yn cyflwyno chwe sesiwn hyfforddiant diogelu yn ystod y flwyddyn a fynychwyd gan gyfanswm o 389 o weithwyr o Cymuned a Menter, Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraethiant, Cynllunio a'r Amgylchedd, Addysg ac Ieuenctid, Strydlun a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn y sesiynau hyn edrychwyd ar senarios sy'n mynd at wraidd diogelu, gan ddefnyddio drama fel cyfrwng i ysgogi meddwl a thrafodaeth.

**Gellir mesur gwir werth ein gwaith diogelu gan yr effaith y mae'n ei gael ar ddeilliannau i bobl ddiamddiffyn. Ceir un enghraifft yn yr astudiaeth achos yn Atodiad 2.**

## Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

**Gwreiddio'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau ymarfer plant, yr adolygiadau ymarfer oedolion a'r adolygiadau dynladdiadau domestig. Byddwn yn gwneud hyn drwy:-**

- **Gynnal digwyddiadau i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau gydag ymarferwyr rheng flaen a rheolwyr.**
- **Newid ymarfer yn seiliedig ar yr argymhellion a'r cynlluniau gweithredu o'r adolygiadau.**

**Datblygu eiriolaeth i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol.**

## SAG4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

### Cyfranogi trwy ddysgu

Mae dysgu a datblygu yn agweddau pwysig o les a gallant ein helpu i ffynnu a blodeuo. Mae ffocws ein gwaith yn parhau i fod ar wytnwch a chefnogi pobl i gymryd rhan yn y pethau sy'n bwysig iddyn nhw, ac mae hynny'n arbennig o wir yn y gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r rhaglen Dysgu er Adferiad a Lles yn ei phumed flynedd bellach ac mae wedi rhoi mynediad i dros 500 o bobl i gyfleoedd dysgu eleni. Mae'r rhaglen sydd yn bartneriaeth rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector ac iechyd, ar agor i bobl sy'n profi problemau iechyd meddwl a'u gofalwyr. Eleni rydym yn cyfoethogi'r rhaglen drwy wneud cysylltiadau â meddygfeydd a chyfleusterau cymunedol eraill. Mae hyn oherwydd ein bod yn dymuno helpu hyd yn oed mwy o bobl i reoli eu lles meddyliol eu hunain

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

a'u hatal rhag bod angen cymorth gwasanaethau iechyd meddwl eraill. Mae'r tîm Camau Nesaf yn rhoi cyfleoedd i bobl ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn gwaith cyflogedig, gwaith gwirfoddol a hyfforddiant addysgol. O'r 157 o unigolion a ddefnyddiodd y gwasanaeth hwn rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2017, cafodd 28 gymorth i ganfod neu gadw gwaith, helpwyd 33 i gael gwaith gwirfoddol a helpwyd 47 i gael addysg naill ai yn y gymuned neu addysg bellach. Eleni datblygwyd cwrs hyfforddi gwirfoddolwyr achrededig. Lluniwyd y cwrs hwn i ymdrin ag agweddau ymarferol gwirfoddoli fel cyfrinachedd a rheoli sefyllfaoedd anodd, ond hefyd i godi hyder a hunan-barch y rheiny sy'n cymryd rhan.

Disgrifiodd un unigolyn yr effaith a gafodd Camau Nesaf ar ei lles fel a ganlyn:-

***"Rhoddodd obaith i mi yn wyneb anobaith, cred ynof fi fy hun a'r gefnogaeth strwythuredig oedd ei hangen i wneud llwybr i fywyd lle y gallaf fyw'n gadarnhaol gyda fy mhroblemau iechyd meddwl".***

## Ansawdd i blant

Fel y dywedom yn ein cyflwyniad, bu 2017/18 yn flwyddyn o adolygu gwasanaethau fel eu bod nid yn unig yn parhau i wella wrth gael deilliannau da i bobl, ond eu bod hefyd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Mae cyraeddiadau addysgol ein plant sy'n derbyn gofal yn bwysig i ni ac yn 2017/18, cyrhaeddodd 40% y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 2 a 4. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018, rhaid oedd i 12% o blant dan ofal newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnodau o fod mewn gofal nad oedd oherwydd trefniadau trosglwyddo. Rydym yn dal wedi ymrwymo i leihau'n ddiogel nifer y plant dan ofal sy'n cael eu rhoi mewn gofal preswyl yn Sir y Fflint a thu allan i'r Sir. Nid oes un ateb i hyn ac mae angen ystod o ddulliau wedi'u targedu a rhai cyflenwol i adeiladu gwytnwch teuluoedd ac atal anghenion rhag gwaethygu. Mae hyn yn cynnwys gwella'r gwasanaethau sy'n rhoi cefnogaeth i fynd i mewn ac allan o ofal preswyl, fel gwell gofal maeth, yn ogystal â chryfhau mewnbwn cynnar mewn gwasanaethau addysg a datblygu sgiliau ac arbenigedd y staff o fewn ein hysgolion.

Rydym yn falch o rannu fod y Cyngor, ym mis Hydref 2017, wedi ennill Gwobr Rhagoriaeth Maethu. Cyflwynwyd y wobr gan y Rhwydwaith Maethu, elusen genedlaethol gofal maeth, ac enillodd Sir y Fflint y categori 'Cyflogwr Maethu-gyfeillgar y Flwyddyn'. Cyngor Sir y Fflint oedd yr Awdurdod Lleol cyntaf i ddod yn un o gyflogwyr maethu-gyfeillgar y Rhwydwaith Maethu.

Fodd bynnag, bydd yna bob amser leiafrif bychan o blant sydd angen gofal a chymorth preswyl arbenigol iawn, a'r llynedd fe ddywedom mai un o'n blaenoriaethau fyddai sicrhau fod y prosesau i gael lleoliadau preswyl cost uchel i blant yn cael eu rheoli'n dda. Rydym wedi datblygu un broses ar gyfer canfod y lleoliadau arbenigol hyn. Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu yn ein gwasanaethau cymdeithasol bellach yn cynnig pwynt canolog lle darperir gwybodaeth allweddol wrth ganfod a threfnu lleoliadau addas i blant. Caiff lleoliadau eu hadolygu gan banel amlasiantaeth sy'n cynnwys

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

rheolwyr gweithredol ac uwch, dull sy'n goruchwylio effeithiolrwydd y broses a chraffu ar benderfyniadau. Mae'r broses newydd hon yn sicrhau ansawdd gofal gyda chraffu ariannol cadarn a throsolwg cytundebol yn sail iddi.

## Rheini sy'n gweithio: gwneud gwahaniaeth

Mae llawer o'r enghreifftiau a roddir yn yr adroddiad hwn yn dangos pwysigrwydd cymryd rhan ac rydym yn parhau i symud ymlaen â gwasanaethau sy'n galluogi pobl i gyfrannu i gymdeithas yn economaidd yn ogystal ag yn gymdeithasol. Yn 2016, ni oedd un o'r saith Cyngor yng Nghymru a enillodd fid i dreialu a dod yn weithredwyr cynnar o'r Cynnig Gofal Plant (Y Cynnig) a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn yn rhoi cynnig gofal plant ac addysg wedi'u cyfuno i blant 3 a 4 oed o hyd at 30 awr yr wythnos i rieni sy'n gweithio sy'n gymwys i'w gael. Mae ar gael am hyd at 48 wythnos y flwyddyn sy'n cynnwys 9 wythnos yn y gwyliau ysgol. Nod y cynllun yw cefnogi teuluoedd drwy gynnig gofal safonol, hyblyg a fforddiadwy a, thrwy wneud hynny, cael effaith gadarnhaol ar adfywiad economaidd lleol drwy helpu rhieni i gymryd rhan yn y gweithle. Mae lleihau risg teulu o dlodi hefyd yn cefnogi lles plant drwy eu galluogi i gael profiadau plentyndod cyfoethocach a mwy cadarnhaol.

Y gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi arwain ar ddatblygu a chyflwyno'r Cynnig. Yn Ebrill 2017 gwelwyd datblygu system arbennig ar gyfer gwirio cymhwysedd a derbyn ceisiadau yn awtomatig, oedd yn galluogi rheini i gofrestru ar-lein a dewis o blith darparwyr gofal plant cofrestredig. Erbyn 31 Ionawr 2018 roedd dros 160 o ddarparwyr ac ychydig o dan 500 o blant wedi cofrestru, ac mae'r ffigwr hwn yn codi bob dydd.

Tynnodd y cynllun peilot sylw at rai heriau cynnar sydd wedi dylanwadu ar sut rydym yn gweithio i ehangu'r cynllun i ardaloedd eraill. Bu'r adborth a gawsom yn gadarnhaol. Dywedodd un rhiant wrthym

***"Dwi wir yn ei werthfawrogi gan nad oedd gen i ddim syniad am yr oriau ychwanegol. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth i'n teulu ni".***

Dywedodd darparwr gofal plant :-

***"Dyma enghraifft o'r cynllun yn gweithio'n dda achos mae wedi galluogi'r rhiant i chwilio am waith a mynd yn ôl i'r gweithle".***

Mae gwybodaeth ar gael gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar **01352 703500** neu e-bost: **fisf@flintshire.gov.uk** ac ar-lein yn **www.flintshire.gov.uk/childcareoffer.**

## Potensial gyda dilyniant

Mae partneriaethau a ffyrdd amlasiantaeth o weithio yn nodwedd gref o'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae hyn yn arbennig o wir am ein Model Dilyniant, yr ydym yn parhau i'w ddatblygu ar draws ein gwasanaethau byw gyda chymorth i bobl ag anableddau dysgu.

Gwyddom y gall ein model traddodiadol o ofal 24 awr i bobl ag anableddau dysgu, er ei fod yn llwyddo i gadw pobl yn ddiogel, atal rhai rhag cymryd risgiau cadarnhaol a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyrraedd eu llawn botensial. Cyflwynwyd y Model Dilyniant yn y gwasanaethau anableddau dysgu yn 2016. Mae'n bartneriaeth rhwng dinasyddion a'u teuluoedd,

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

gwasanaethau cymdeithasol, y bwrdd iechyd, darparwyr gofal a chymorth annibynnol, hyfforddwr annibynnol ac elusen celfyddydau cymunedol.

Mae'r enghraifft o arfer da sydd eisoes yn ei le yn Sir y Fflint, Orchard Way, yn dangos sut gall cyd-gynhyrchu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gryfderau pobl eu helpu i ddatblygu sgiliau bywyd a bod yn fwy annibynnol. Eleni rydym wedi bod yn gweithio gyda phedwar yn rhagor o ddarparwyr gofal i ddatblygu'r agwedd hon.  Gyda chyllid gan y Gronfa Gofal Integredig, mae'r tîm dilyniant wedi cael ei gryfhau gyda chyflwyno gweithiwr cymdeithasol llawn-amser a ffisiotherapydd a therapydd galwedigaethol rhan amser. Eu rôl yw cymryd yr hyn a ddysgwyd a'r arfer da o'r gwasanaethau anableddau dysgu ac ehangu hyn i'r gwasanaethau i gyd. Ar hyn o bryd maent yn rhoi sylw ar fyw â chymorth yn y gwasanaethau anableddau dysgu a chorfforol, gan alluogi unigolion, aelodau o'r teulu ac ymarferwyr i gyrraedd eu deilliannau personol a lleihau eu dibyniaeth ar gymorth taladwy.

Er mwyn helpu gyda hyn rydym wedi datblygu polisi Agwedd Gyffredin at Gymryd Risg Cadarnhaol sydd wedi helpu i newid agweddau'r staff tuag at risg, ac wedi chwilio am hyfforddiant risg cadarnhaol i reolwyr darparwyr gofal annibynnol a staff rheng flaen, sydd hefyd wedi cefnogi newidiadau mewn agwedd ac ymarfer. Cafwyd buddsoddiad pellach mewn technoleg gynorthwyol a datblygwyd a chyflwynwyd pob math o offerynnau a luniwyd i gefnogi, mesur a monitro dilyniant unigolion a'r gwasanaeth.

Caiff dilyniant ei yrru gan awydd gwirioneddol i wella deilliannau i bobl, fodd bynnag rydym yn sylweddoli fod y dull hwn yn gostwng dibyniaeth ar y gwasanaethau statudol a bod hyn yn ein helpu i fod yn fwy effeithlon. Un enghraifft yw gostyngiad mewn cymorth i dri thenant un eiddo byw â chymorth o 107 awr i 70 awr yr wythnos.

## Y Gwasanaethau Anableddau Dysgu: gwneud pethau'n wahanol

Y llynedd fe ddechreuon ni weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a staff i ystyried modelau cyflawni amgen i'r gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith i oedolion ag anableddau dysgu. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhoi seibiant a chefnogaeth i ofalwyr, yn ogystal â rhoi gweithgareddau pwrpasol i'r cyfranogwyr sy'n gwella'u sgiliau a'u hannibyniaeth. Mae'r gwaith heriol hwn wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i ni wrth i ni foderneiddio'n gwasanaethau a chyflawni arbedion ariannol yr un pryd.

Ym mis Mawrth 2017, yn dilyn proses gaffael lawn a chynhwysol, rhoddodd y Cabinet sêl bendith i benodi darparwr a argymhellwyd, Hft, i gyflwyno a thrawsnewid gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith anableddau dysgu.

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

Elusen genedlaethol yw Hft sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu, ac mae'n dod â chyfoeth o brofiad a record bendant fel darparwr gofal cymdeithasol safonol a blaengar sy'n rhannu'n gweledigaeth i drawsnewid y gwasanaethau pwysig a gwerthfawr hyn. Cytunwyd ar gytundeb ym mis Tachwedd 2017, am 5 mlynedd i ddechrau gydag opsiwn am 2 flynedd ychwanegol. Trosglwyddodd y gwasanaeth, sy'n cynnwys Canolfan Ddydd Glanrafon, y busnesau cyfleoedd gwaith a'r tîm hyfforddi opsiynau swydd, yn llwyddiannus ar 1 Chwefror 2018.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

**Cael lleoliadau preswyl da yn lleol a datblygu sgiliau byw'n annibynnol.**

**Adolygu a gwella'r cynnig all-sirol presennol yn y gwasanaethau oedolion a phlant. Adolygu'r prosesau comisiynu a phrynu yn cynnwys taliadau uniongyrchol, prynu yn ôl y galw, fframweithiau a chontractau.**

**Gwella'r cyfleoedd gwaith i'r rhai sy'n gadael gofal drwy:-**

- **Weithredu Prosiect BOOST, rhaglen profiad gwaith sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith strwythuredig a mentora i'r rhai sy'n gadael gofal, a bod yn weithredol wrth ddarparu cefnogaeth rhianta corfforaethol.**
- **Hyrwyddo cynllun prentisiaeth y Cyngor i helpu'r rhai sy'n gadael gofal.**

# SAG5: Cefnogi pobl i ddatblygu perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel.

Mae gan gynghorau yng Nghymru gyfrifoldeb i gynorthwyo pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel. Rydym wedi sôn wrthych am rywfaint o'r gwaith yr ydym yn ei wneud i helpu pobl i aros yn glos at eu teuluoedd a'u cymunedau. Yn y flwyddyn ariannol 2017/18 buom yn cynorthwyo 63% o'n plant i aros yn byw gyda'u teuluoedd ac aeth 10% o'n plant dan ofal adref o ofal. Hyd at 31 Mawrth 2018, oedd 9% o blant sy'n derbyn gofal wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn.

## Cymorth i Deuluoedd: ymateb cynnar

Mae'r Ddeddf GCLl yn cefnogi symudiad tuag at ymyrraeth gynnar ac atal. Golyga hyn fod angen i ni gefnogi teuluoedd sy'n byw yn Sir y Fflint i gael mynediad at y gwasanaethau gofal a chymorth cyn bod eu hanghenion yn troi'n argyfwng.

Dengys ymchwil y gall buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth cynnar atal plant rhag mynd i mewn i'r system gofal cymdeithasol, a gall helpu i reoli anghenion o fewn teuluoedd cyn iddynt ddwysau. Mae teuluoedd yn aml yn cael y deilliannau gorau pan rydym ni'n mynd i mewn yn gynnar a'u cyfeirio at y gwasanaethau priodol. Nid yw cyfran fawr o'r cyfeiriadau a dderbyniwn am blant a theuluoedd yn gymwys i wasanaeth statudol, ond maent yn elw o gael cymorth i fynd at yr ystod ehangach o wasanaethau sydd ar gael.
Y llynedd fe welsom y potensial wrth greu Hwb Help Cynnar wedi'i leoli yn

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

y Gwasanaethau Plant. Gan weithio gyda chynrychiolwyr o'r gwasanaethau plant ac oedolion, ieuenctid ac addysg, tai, yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd, gosodwyd y seiliau i'w weithredu, gan rannu'r cyfoeth o wybodaeth a phrofiad y gall y dull amlasiantaeth hwn eu cynnig. Mae Hwb Help Cynnar Sir y Fflint yn dod ag asiantaethau statudol ac anstatudol ynghyd i rannu gwybodaeth am deuluoedd a chydlynu ymateb cynnar cyn i broblemau cymharol syml waethygu a mynd yn gymhleth.

Mae sgrinio ar gyfer yr Hwb Help Cynnar yn seiliedig ar deuluoedd sy'n dangos Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), sy'n dangos fod angen ymyrraeth gynnar. Rhoddwyd Hwb Help Cynnar Sir y Fflint ar waith ym mis Mai 2017. Yn dilyn cyfnod lansio tawel lle cafodd dros 300 o deuluoedd nad oedd yn bodloni'r trothwy i gael gwasanaeth statudol wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth drwy un neu fwy o'r asiantaethau yn yr Hwb, byddwn lansio'r Hwb Help Cynnar yn gyhoeddus

Mae'r dull hwn yn gostwng y galw am wasanaethau statudol ac mae'n arwain at ddeilliannau cadarnhaol i deuluoedd. **Darllenwch yr astudiaethau achos yn Atodiad 3 i weld mwy am sut mae'r Hwb Help Cynnar yn cynorthwyo teuluoedd i gynnal y perthnasoedd sy'n bwysig iddyn nhw ac yn eu diogelu rhag niwed mewn ffyrdd sy'n ystyried eu barn eu hunain yn ogystal â barn y staff proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw.**

## Cymorth i deuluoedd: rhaglenni rhianta

Mae Fframwaith Rhianta Sir y Fflint (2018) yn amlinellu strwythur ar gyfer datblygu rhaglenni rhianta ffurfiol ac anffurfiol ymhellach ac mae'n ffurfio rhan o'n strategaeth ehangach ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal. Y nod yw datblygu ystod gynhwysfawr o raglenni rhianta sy'n bodloni anghenion pob rhiant a gofalwr, gan deilwra cymorth i amgylchiadau unigol drwy ddefnyddio'r sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' a galluogi pob unigolyn i gyrraedd eu deilliannau personol. Mae staff yn defnyddio modelau datblygu plant a theuluoedd i adeiladu hyder mewn teuluoedd, lleihau arwahanrwydd a hybu profiadau teuluol cadarnhaol yn unol â Chanllaw Llywodraeth Cymru 'Rhianta yng Nghymru' a Fframwaith Sir y Fflint. Mae rhieni sy'n defnyddio'r rhaglenni hyn wedi dweud wrthym eu bod yn dod oddi yno yn teimlo'n fwy hyderus, bod ganddynt berthynas gryfach â'u plant a'u bod yn gwybod sut i gael mwy o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

**Canolbwyntio ar ddefnyddio dull seiliedig ar y teulu yn ein hymarfer a defnyddio arfer a ddylanwadwyd gan drawma i adeiladu gwytnwch mewn teuluoedd.**

**SAG6 Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni lles economaidd mwy, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion.**

## Ein cartrefi, ein hasedau in

Y llynedd fe ddywedon ni ein bod yn mynd i ddefnyddio buddsoddiad cyfalaf i ddatblygu'n hasedau adeiladu fel bod gan bobl Sir y Fflint lefydd da i fyw

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

mewn cymunedau lle y gallant gymdeithasu, bod yn weithgar ac aros yn annibynnol.

Gwyddom fod byw mewn cartref addas yn hanfodol i lesiant. Mae'n Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol yn dangos ein hymrwymiad i adeiladu mwy o dai cyngor fforddiadwy ac rydym yn bwriadu adeiladu 500 o gartrefi newydd yn Sir y Fflint erbyn 2021 i ymateb i'r galw cynyddol.

Bydd y rhaglen hon yn ychwanegu at adfywio'n trefi a'n cymunedau oherwydd bod ein sylw yn dal i fod ar gefnogi pobl i gael llety sy'n cwrdd â'u hanghenion, yn awr ac yn y dyfodol, gan adeiladu cartrefi am oes lle bo modd. Dywedodd ein Harolwg Dinasyddion 2017/18 wrthym fod cael cartrefi wedi'u haddasu'n briodol yn dal i fod yn bryder i rai pobl. Mae'r cartrefi newydd rydym wedi'u hadeiladu yn cynnwys nodweddion dylunio fel wynebau gwaith y gellir eu haddasu a chawodydd cerdded i mewn sy'n caniatáu byw'n annibynnol, a hefyd yn caniatáu ystyried unrhyw addasiadau y gall fod eu hangen yn y dyfodol. Mae Fflint yn enghraifft o adfywio cymunedol yn Sir y Fflint, gyda 92 o dai cyngor fforddiadwy newydd, canolfan iechyd newydd a chynllun gofal ychwanegol wrthi'n cael eu hadeiladu.

## Byw'n annibynnol gyda Gofal Ychwanegol

Mae byw'n annibynnol yn un o'n prif flaenoriaethau ac rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid cymdeithasau tai i ddatblygu dau gynllun Gofal Ychwanegol arall yn Sir y Fflint, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgom gan y cynlluniau yr ydym eisoes wedi'u datblygu yn Shotton (Llys Eleanor) a'r Wyddgrug (Llys Jasmine).

Rydym yn falch o adrodd fod datblygiad Gofal Ychwanegol Llys Raddington yng nghanol tref y Fflint, partneriaeth gyda Chymdeithas Dai Tŷ Glas, yn dod i ddiwedd y cyfnod adeiladu a bod yr adeilad yn dod yn fangre amlwg yn y dref. Bu'r cynllunio gweithredol yn ffocws ein gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf i sicrhau y bydd y gwasanaethau tai a gofal yn barod ac yn eu lle erbyn yr agoriad, sef haf 2018 gobeithio. Mae'r cynllun, yn ôl y disgwyl, wedi bod yn boblogaidd dros ben ac rydym wedi cael lefel uchel o ddiddordeb gan ddarpar breswylwyr. Edrychwn ymlaen at agor y drysau i'n trydydd cynllun gofal ychwanegol a'r mwyaf ohonynt a fydd yn rhoi mwy o ddewis o ran cartref annibynnol i bobl hŷn.

Cafodd ein cynllun Gofal Ychwanegol yn Nhreffynnon ganiatâd cynllunio llawn ym mis Hydref 2017 ac, yn dilyn ymgynghoriad helaeth rydym wedi cytuno ar y dyluniadau manwl i'r cynllun, sy'n bartneriaeth gyda Chymdeithas Dai Wales and West. Mae prynu'r tir yn gyfreithiol a gwaith paratoi'r safle ar y gweill ac rydym yn dal yn gobeithio dechrau adeiladu ar y safle yn 2018.

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

Yn y gwasanaethau anableddau rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid tai i sicrhau llety addas i bobl sydd ag anabledd corfforol a/neu ddysgu. Darparwyd tai arbenigol gan gymdeithasau tai i ddiwallu anghenion unigol, i bobl sydd angen llety â chymorth 24 awr a hefyd i eraill a all fyw yn fwy annibynnol gyda chymorth galw heibio neu denantiaeth.

## Gwasanaethau Anabledd Dysgu: buddion cymunedol

Er gwaethaf gwasgfa ariannol nas gwelwyd mo'i thebyg, rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen gyfalaf a dyrannwyd £4 miliwn i adeiladu cyfleuster newydd sbon ar gyfer gwasanaethau dydd anableddau dysgu. Bydd hwn yn dod yn lle hen ganolfan ddydd Glanrafon yn Queensferry. Bydd y ganolfan newydd, a leolir ar safle hen Ysgol Uwchradd John Summers, yn adnodd o'r radd flaenaf i'r gymuned.

Mae'r prosiect yn y wedd ddylunio, ac mae gweithgor gwasanaeth yn cwrdd yn rheolaidd i drafod cynlluniau. Mae'r aelodaeth yn cynnwys defnyddwyr y gwasanaeth, aelodau eu teulu, staff o'r Cyngor, staff Hft a chydweithwyr iechyd fel nyrsys a therapyddion galwedigaethol. Mae'r grŵp yn gweithio ar gynhyrchu dyluniad adeilad sy'n galluogi datblygu sgiliau, annibyniaeth a rhyngweithio cymdeithasol, fyddai'n cynnig cyfleusterau ac offer modern i fodloni anghenion gofal a chefnogaeth oedolion sydd ag anableddau lluosog a dwys. Mae'r gwaith wedi cynnwys casglu'r gofynion drwy gyfrwng trafodaethau a holiaduron ac ymweliadau safle â chanolfannau eraill, ac rydym bellach yn symud ymlaen i derfynu mwy o'r manylion am y deunydd a'r cyfarpar.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Chwefror 2018, a bydd yr adeiladu'n dechrau ar y safle ar ddechrau'r haf. Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu wedi gorffen erbyn Gwanwyn 2019.

## Plant: bod yn gymdeithasol, aros yn lleol

Rydym eisiau i bobl sy'n byw yn Sir y Fflint gael sefydlogrwydd ac ansawdd bywyd da, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc ag anableddau ac yn ein Cynllun Cyngor ar gyfer 2017-23, gwnaethom ymrwymiad i wella deilliannau i'n pobl ifanc drwy leoliadau gofal sefydlog a lleol.

Mae Action for Children wedi bod yn gweithio yn Sir y Fflint ers ugain mlynedd ac ers 2012 mae wedi gweithredu o Arosfa yn yr Wyddgrug. Ar hyn o bryd, mae'r eiddo, sy'n berchen i'r Cyngor, yn uned tri gwely ac wedi'i addasu gyda chyfarpar arbenigol. Mae'n cynnig seibiannau byr i blant sydd ag anableddau dwys mewn amgylchedd diogel, ac yn eu galluogi i gryfhau eu sgiliau byw'n annibynnol a chymdeithasu. Mae'r gwasanaeth ar agor am 324 o nosweithiau'r flwyddyn ac yn y tair blynedd diwethaf, mae 25 o bobl ifanc wedi'i ddefnyddio.

Rydym yn ymgynghori'n barhaus â rhanddeiliaid i ddeall eu barn am ein gwasanaethau, ac yn ôl adborth diweddar, mae pryder am y diffyg cymorth sydd ar gael i ofalu am blant yn ystod gwyliau'r ysgol a phan mae gofalwyr yn anhwylus.

Dywedodd gofalwyr wrthym y gall pwysau cydbwyso gwaith a galwadau corfforol ac emosiynol gofalu am blant ag anableddau effeithio ar eu lles nhw eu hunain. Mae'r bobl ifanc hefyd wedi dweud yr hoffent gael mwy

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

o amrywiaeth o bethau i wneud y tu allan i'r ysgol ac mae perygl go iawn o arwahanrwydd cymdeithasol iddyn nhw a'u gofalwyr. Cadarnhawyd hyn gan ganlyniadau'n Harolwg Dinasyddion 2017/18, gyda rhai pobl ifanc yn mynegi anfodlonrwydd â diffyg rhyngweithio a gweithgaredd cymdeithasol. Eto mae hwn yn faes y bydd angen i ni roi sylw iddo yn y flwyddyn sy'n dod.

## Cryfhau'n sector gofal

Rydym yn gweithio'n galed i gryfhau partneriaethau a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol drwy'n hasedau adeiladu. Fodd bynnag, mae cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, p'un ai yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau preswyl, yn gofyn hefyd am sector gofal cryf.

Cwblhawyd adolygiad cynhwysfawr o'r farchnad gofal preswyl yn Sir y Fflint yn 2016. Roedd yr adolygiad yn cynnwys cysylltu â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, Fforwm Gofal Cymru a'r Bwrdd Iechyd. Daeth i'r casgliad fod y farchnad bresennol yn fregus. Mewn gofal preswyl, mae pob gwely'n gyson yn llawn neu bron yn llawn, sy'n golygu nad oes fawr o ystwythder i liniaru effaith cau gwelyau neu gartrefi dros dro neu'n barhaol neu i ddelio gyda phwysau'r gaeaf. Nododd yr adolygiad hefyd yr angen am nifer sylweddol o welyau ychwanegol erbyn 2020.

Mae llawer o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn dibynnu ar ei gilydd, felly mae angen dull integredig i ddod o hyd i atebion i broblemau a goresgyn heriau. Drwy weithio'n strategol ar y cyd yn Sir y Fflint, mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn trafod yn rheolaidd yr heriau a wynebir ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol a'n blaenoriaethau ar gyfer cwrdd â'r heriau hyn. Yn ogystal â chymhlethdod cynyddol anghenion pobl sy'n byw mewn gofal preswyl a'r cynnydd a ragwelir yn y galw am wasanaethau, rydym yn wynebu heriau sylweddol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys oedi wrth drosglwyddo gofal (rhyddhau o'r ysbyty) ac ail-dderbyniadau i ysbytai acíwt, gofal heb ei drefnu a'i effaith ar wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd, yr angen i fabwysiadu model Rhyddhau i Asesu i wella deilliannau a lleihau'r risg o ddibyniaeth gynyddol ar wasanaethau, cyflwyno gofal yn nes at adref a breuder y sector cartrefi gofal a gofal yn y cartref.

Eleni fe benderfynom ni ganolbwyntio ar un o'r heriau hyn a chymryd golwg fanwl ar y materion sy'n effeithio ar freuder y sector cartrefi gofal a gofal yn y cartref. Roeddem yn dymuno adnabod y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ein darparwyr gofal a chefnogaeth yn lleol fel y gallem ddatblygu cynllun i'w helpu.

Fe sefydlom ni grŵp llywio a oedd yn cynnwys ein staff a chynrychiolwyr o fudiadau gofal a gwirfoddol lleol. Mae'r gwaith a wnaed, a oedd yn cynnwys cymryd rhan mewn adolygiadau busnes, wedi rhoi dealltwriaeth i ni o'r prif faterion sy'n effeithio'n fras ar ein hardal. Codwyd recriwtio a chadw staff gofal uniongyrchol fel pryder arbennig, ac mae ymchwil wedi dangos fod hon yn gryn her yn genedlaethol hefyd. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i gefnogi'n darparwyr gofal i baratoi gogyfer goblygiadau RISCA drwy gynnal sawl gweithdy ymgynghoriad. Rhoddodd y rhain gyfle i reolwyr a pherchnogion ofyn cwestiynau a thrafod y problemau a'r newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae gweithio mewn partneriaeth â mudiadau lleol fel hyn yn golygu y gallwn, lle bo modd, gymryd y camau y maen nhw'n dymuno. Un llwyddiant amlwg yw datblygu gwefan **care@flintshire** sy'n cynnwys gwybodaeth am

# Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Rheiny Rydym yn eu Helpu

weithio mewn gofal, cyfleoedd swyddi a hyfforddiant lleol, digwyddiadau cymunedol a newidiadau pwysig o fewn y sector gofal.
Dywedodd un darparwr wrthym:

*"Mae hwn yn syniad ardderchog i wella cyfathrebu rhwng y darparwyr, Cyngor Sir y Fflint a'r gymuned".*

Mae gennym broblemau o hyd y mae angen i ni eu goresgyn, yn cynnwys yr angen i wella'n gallu i roi gofal a chefnogaeth mewn ardaloedd gwledig a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn archwilio opsiynau i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Er enghraifft, buom yn llwyddiannus yn ein cais i fod yn rhan o ralgen 'Leader' Cadwyn Clwyd, yr asiantaeth datblygu gwledig. Drwy hyn byddwn yn edrych ar ymarferoldeb sefydlu cyrff micro-ofal. Mae'r rhain yn gweithredu ar raddfa fechan, fel arfer yn cyflogi pump neu lai o bobl, ac yn canolbwyntio ar grŵp bach o gleientiaid. Gallai'r model hwn fod o fudd i ardaloedd gwledig yn Sir y Fflint ac mae'n cynnig potensial i roi mynediad gwell at gefnogaeth sy'n ddiwylliannol addas.

Hefyd, er bod lefel sylweddol o gymorth a gweithgaredd yn mynd rhagddynt i gryfhau'r sector annibynnol, dengys tystiolaeth, er mwyn sefydlogi a chryfhau'r ddarpariaeth gofal, fod angen i ni gynyddu capasiti yn ein gwasanaethau Cyngor (mewnol)

## Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19

**Parhau â'n gwaith ar gyfer prosiectau Gofal Ychwanegol Fflint a Threffynnon.**

**Bydd y gwaith i ddatblygu gwasanaeth canolfan ddydd newydd Glanrafon yn parhau, mae'r adeilad yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd a'r dyddiad cwblhau arfaethedig yw 19 Mai. Fel rhan o'r paratoad i ddefnyddio'r adeilad newydd, bydd y gwasanaeth anabledd yn gweithio gyda'r rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u teuluoedd i baratoi at y symud.**

**Datblygu cynigion i ehangu Cartref Gofal Tŷ Marleyfield sydd yn eiddo i'r Cyngor.**

**Gweithio gyda'r trydydd sector i sicrhau y gall pobl gael mynediad at ystod ehangach o weithgareddau i blant ag anableddau y tu allan i'r ysgol.**

# Adran 5: Sut Rydym Yn Gwneud Yr Hyn a Wnawn

## Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

### Golwg ranbarthol

Rydym wedi ymrwymo i Strategaeth Gweithlu Gogledd Cymru sy'n dangos agwedd gyd-gysylltiedig at yr heriau a'r cyfleoedd i'r gweithlu ar draws y sector gofal yn ein rhanbarth. Mae'r Strategaeth yn cefnogi gwreiddio egwyddorion y Ddeddf GCLl ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'n hymrwymiad i'r olwg ranbarthol hon yn amlwg yn y ffordd yr ydym yn parhau i weithio'n galed i wneud yn siŵr fod ein gweithlu'n wybodus, yn fedrus ac yn alluog i weithredu o fewn disgwyliadau cyfreithiol a diwylliannol y ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol newydd yng Nghymru.

### Gwaith Cymdeithasol: dull eglur

Cawson ein helpu drwy ddatblygu dull eglur sy'n sicrhau ymarfer gwaith cymdeithasol effeithiol ar draws Cymru. Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (bellach Arolygiaeth Gofal Cymru neu AGC) a Chyngor Gofal Cymru (bellach Gofal Cymdeithasol Cymru) fframwaith newydd o'r enw 'Y tair blynedd gyntaf o ymarfer. Fframwaith ar gyfer ymsefydlu gweithwyr cymdeithasol mewn ymarfer cymwys a dysgu ac addysg broffesiynol barhaus'. Mae tri chyfnod i'r fframwaith hwn: ymsefydlu mewn gwaith cymdeithasol proffesiynol, meithrin hyder a chymhwysedd a rhaglen gadarnhau. Mae defnyddio'r fframwaith yn Sir y Fflint wedi'n helpu ni i sicrhau fod gweithwyr cymdeithasol sy'n adnewyddu eu cofrestriadau yn ymarfer yn hyderus ac mae wedi'n helpu i gefnogi 32.

### Meithrin ein harweinwyr

Y llynedd fe dynnon ni sylw at rywfaint o'r gwaith paratoi a wnaethom gyda'n staff, yn cynnwys hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a digwyddiadau a drefnwyd ar gyfer staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau oedolion a phlant. Eleni rydym wedi sylweddoli pwysigrwydd datblygu'r bobl sydd angen llywio'r newidiadau a ddisgrifiwyd gennym. Gyda hyn mewn golwg rydym wedi cefnogi mynediad at raglenni cenedlaethol sy'n datblygu'n rheolwyr a'r rheiny sydd â photensial i reoli. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys Camu i Fyny i Reolaeth, Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datblygu Rheolwyr Canol a Datblygu Rheolwyr Tîm.

### Gwybod beth sy'n bwysig: staff rheng flaen

Rydym wedi pwysleisio fod ein sylw ar wybod beth sy'n bwysig i bobl fel bod eu penderfyniadau yn siapio'r gofal a'r gefnogaeth a gânt. Ni ellir gwneud hyn heb gyfraniad hanfodol ein staff gofal rheng flaen ac mae lansio fframwaith ymsefydlu newydd i staff sy'n darparu gofal a chefnogaeth uniongyrchol yn flaenoriaeth ranbarthol i'r Timau Datblygu'r Gweithlu. Yn lleol mae hyn wedi cael effaith ar strwythur y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF) ac mae'n haseswyr wedi bod yn rhan o sesiynau grwpiau a gweithdai cymheiriaid i'w paratoi ar gyfer y newidiadau hyn. Eleni maent wedi cefnogi cyfanswm o 52 o aelodau staff gofal cymdeithasol i gyrraedd

## Adran 5:  Sut Rydym Yn Gwneud Yr Hyn a Wnawn

cymhwyster QCF lefel 2 i 5 mewn pynciau sy'n cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, gofal dementia, iechyd meddwl ac awtistiaeth.

Ar gyfer staff Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint, cyflwynwyd canllaw ymsefydlu newydd "Inform Me" ym mis Mawrth 2018. Mae hwn yn cefnogi staff newydd i ddeall blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac mae'n gosod allan y disgwyliadau o ran rolau'r gwasanaethau cymdeithasol. Datblygwyd Fframwaith Hyfforddiant Deilliannau Dysgu (LOFT) hefyd, sy'n rhoi fframwaith i'n Tîm Datblygu'r Gweithlu a fydd yn helpu ymhellach i fesur deilliannau dysgu o hyfforddiant a gyflwynwyd gennym ni a gan ddarparwyr hyfforddiant lleol a rhanbarthol. Cyflwynwyd cronfa ddata hyfforddiant newydd, a bydd y LOFT yn cael ei gynnwys yn y system hon er mwyn cynhyrchu adroddiadau seiliedig ar ddeilliannau, ar yr hyfforddiant.

### Gweithio gyda phartneriaid

Rydym wedi dweud wrthych am y ffyrdd y mae'r Cyngor yn gweithio gyda darparwyr gofal annibynnol a gwasanaethau mewnol i'w helpu i baratoi gogyfer y RISCA. Mae swyddogaeth ein Tîm Datblygu'r Gweithlu yn hanfodol yn hyn o beth ac mae wedi cynnwys cefnogi'r gweithlu gofal yn y cartref i baratoi i gofrestru a gwella'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer rôl yr Unigolyn Cyfrifol. Mae hwn yn dal i fod yn faes blaenoriaeth i ni yn lleol a rhanbarthol. Ar ddechrau'r flwyddyn, er enghraifft, dosbarthwyd arolygon gweithlu a chynhaliwyd sesiynau briffio cychwynnol fel y gallem ganfod ble mae'r risgiau a phenderfynu beth yw'r meysydd blaenoriaeth rhanbarthol ar gofrestru, un enghraifft fyddai cyfraddau cymhwyster ar gyfer gofal yn y cartref.

### Edrych ymlaen: beth nesaf?

Os ydym am barhau ar ein siwrne wella, mae angen staff da arnom. Golyga hyn fod yn rhaid i ni feddwl am y dyfodol hefyd. Bu cynllunio ar gyfer olyniaeth yn bwysig i ni eleni ac rydym wedi gwneud ymarfer cwmpasu i ddatblygu a chadw'n staff talentog. Canolbwyntiodd cyfnod un ar brofiadau'r rheolwyr presennol er mwyn canfod pa gefnogaeth fyddai'n gwella'u cymwyseddau ac adnabuwyd nifer o rolau hanfodol a fydd angen cael eu llenwi gan staff newydd yn y dyfodol agos.

Wrth ddatblygu cynllun ar gyfer olyniaeth rydym eisiau gwneud yn siŵr ei fod yn seiliedig ar ddeilliannau, wedi'i yrru gan ein huwch reolwyr ond wedi'i ysbrydoli gan ein staff i gyd. Ein nod yw creu cyfleoedd i staff dawnus archwilio'r potensial sy'n guddiedig yn eu meysydd gwasanaeth eu hunain a hefyd eu cefnogi i adeiladu eu cymhwysedd a'u haddasrwydd i ysgwyddo rolau ychwanegol. Bydd y ffyrdd o wneud hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith mentora ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, adeiladu adnodd llyfrgell o siwrneiau a mapiau gyrfa staff i ysbrydoli eraill, a chyflwyno proffilio rôl.

## Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym y Cynllunio Ar Gyfer y Dyfodol

### Cyllidebau: bod yn drefnus

Eleni rydym wedi bod yn gweithio'n agos â'n tîm cyllid fel y gallwn ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu'n sefyllfa ariannol. Caiff cyllidebau eu monitro'n agos drwy reolwyr gwasanaeth unigol yn cwrdd â'u swyddogion cyllid, uwch reolwyr yn adolygu eu meysydd gwasanaeth gyda rheolwyr cyllid a chyfrifydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cynhyrchu a chyflwyno adroddiad monitro cyllid manwl i Dîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol

## Adran 5: Sut Rydym Yn Gwneud Yr Hyn a Wnawn

bob mis. Yn ychwanegol, caiff arbedion effeithlonrwydd a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig eu hadolygu ym Mwrdd Rhaglen y Gwasanaethau Cymdeithasol (sy'n cyfarfod bob 2 fis) ac mae papur ar feysydd gorwario'r gyllideb wedi cael ei gyflwyno ym Mhwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w adolygu a'i herio.

### Cyllidebau: bod yn ddyfeisgar

Rydym yn aelod gweithredol yng Ngrŵp Cyllideb Gyfun Gogledd Cymru, yn gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu cytundeb rhannu cyllideb gyfun heb risg yn unol â phob rhanbarth arall yng Nghymru. Yn ogystal, roedd Grŵp Cyllideb Gyfun Gogledd Cymru wedi creu Cytundeb Integreiddio sy'n gosod allan y prosesau llywodraethu i unrhyw gyllidebau cyfun yn y dyfodol rhwng dau neu fwy o'r saith asiantaeth bartner yng Ngogledd Cymru. Mae cyllideb gyfun yn dal i fod o dan ystyriaeth fel rhan o'r ehangu arfaethedig ar ofal preswyl yn Nhŷ Marleyfield, Bwcle.

### Edrych ymlaen: beth nesaf?

Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau fod cyllidebau refeniw yn cael eu hailalinio a'u cydbwyso, fod ein hincwm yn cael ei uchafu a'n cyllidebau cyfun yn cael eu cefnogi. I'r Gwasanaethau Plant mae angen datblygu'r farchnad gofal leol i leihau gwario ar leoliadau all-sirol ond buddsoddi mewn gwasanaethau gofal maeth a datblygu'r farchnad leol. Yn y gwasanaethau oedolion byddwn yn parhau i edrych ar ddulliau eraill o gyflwyno gofal i leoliadau cost uchel/swm isel traddodiadol, eto'n canolbwyntio ar wasanaethau lleol sy'n rhoi deilliannau o ansawdd a gwerth am arian. Rydym eisiau sicrhau fod gennym ffordd gost-effeithlon o fodloni'r anghenion a ganfuwyd gan ddefnyddio contractau a gomisiynwyd i gael y deilliannau gorau ac arbedion effeithlonrwydd/gwerth am arian. Ein bwriad yw gwneud ymarfer peilot i ail-alinio monitro'r gyllideb â data perfformiad fel ein bod yn gallu rhagweld yr alldro ariannol yn y flwyddyn yn well.

## Ein Gwaith mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

### Pwy ydym ni a sut ydym ni'n gwneud penderfyniadau

Mae gan Aelodau Etholedig, sy'n cael eu galw fel arall yn Gynghorwyr, ran bwysig i'w chwarae yn ein llywodraethu. Wrth hyn rydym yn golygu sefydlu'n polisïau a'n blaenoriaethau a sicrhau ein gwelliant parhaus. Mae gan Gyngor Sir y Fflint 70 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli buddiannau eu ward ac yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor i oruchwylio'i berfformiad. Caiff un aelod ei ethol i gynrychioli pob maes portffolio, fel gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'n cael ei adnabod fel Aelod Cabinet. Gyda'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddogion, mae Aelodau Cabinet yn ffurfio cabinet y Cyngor. Cânt eu cefnogi gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ac i'r gwasanaethau cymdeithasol, hwn yw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae pwyllgorau craffu'n gweithio ar y cyd i edrych ar faterion traws-bortffolio. Mae cyfarfodydd craffu ar y cyd Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg a Phobl Ifanc, er enghraifft, yn trafod gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n rhan o wasanaethau cyhoeddus ac addysg fel ei gilydd.

# Adran 5: Sut Rydym Yn Gwneud Yr Hyn a Wnawn

Mae aelodau'n cymryd rhan hefyd mewn llywodraethu a chraffu ar raglen waith y gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn mynychu hwn mae'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Prif Weithredwr ac uwch swyddogion. Mae'r bwrdd yn herio'r rheolaethau ariannol o safbwynt cyflawni'r gwasanaeth ac yn rhoi cyfeiriad i'r gwasanaethau i gefnogi eu penderfyniadau.

Caiff swyddogion y Cyngor eu harwain gan y Prif Swyddog Gweithredol sy'n cael ei gefnogi gan y Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am bob un o'r meysydd portffolio. Gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol y mae'r rôl statudol "Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol". Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer aelodau a swyddogion wedi'u gosod allan yn glir. Mae'r cyfansoddiad yn manylu ar sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn i wneud yn siŵr fod y penderfyniadau hynny yn effeithiol, tryloyw ac yn atebol i bobl leol. I gefnogi hyn, y Cod Llywodraethu Corfforaethol yw'r system y mae Cynghorau yn ei dilyn i gyfeirio a rheoli eu swyddogaethau ac ymwneud â'u cymunedau.

Fel rhan o drefniadau llywodraethu mewnol y Cyngor ei hun, mae gofyn i ni gynnal system effeithiol o archwilio mewnol. Mae'n tîm archwilio mewnol yn cynnal rhaglen o archwiliadau a gynlluniwyd drwy gydol y flwyddyn, gan edrych yn benodol ar gofnodion cyfrifon a systemau rheolaeth fewnol. Mae hefyd yn gwneud gwaith ymgynghori i gefnogi gwasanaethau ac archwiliadau o ddiddordeb arbennig pan mae angen ymchwiliad pellach i faterion sy'n codi. Caiff gwaith y tîm archwilio mewnol ei oruchwylio gan bwyllgor archwilio'r Cyngor.

## Blaenoriaethu a gwella

Fel yn y blynyddoedd diwethaf mae blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Corfforaethol. Yn 2017/18 diwygiwyd y cynllun er mwyn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd cynt, gyda meysydd newydd i ganolbwyntio arnynt yn 2017/18. Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn ymdrin â holl weithgareddau'r Cyngor ac mae wedi'i ddosbarthu'n wyth maes blaenoriaeth. Mae'n blaenoriaethau ni yn y gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o'r categori "Byw yn Dda" a phrif themâu hwn yw byw'n annibynnol a gwasanaethau cymunedol, cymdeithasol ac iechyd integredig. Byddwch wedi gweld yn yr enghreifftiau niferus a roesom, fod y themâu hyn yn sail i'n datblygiadau gwasanaeth i gyd ac yn ein helpu i hyrwyddo lles pobl sy'n byw yn Sir y Fflint.

Mae'r diagram hwn yn dangos blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2017/18:-

# Adran 5: Sut Rydym Yn Gwneud Yr Hyn a Wnawn

## Cefnogi partneriaethau

Er mwyn cyflawni'n hymrwymiad i weithio mewn ffordd integredig, mae'n rhaid i ni adeiladu perthnasoedd effeithiol gyda phobl a chyrff eraill, ac, fel y gwelwyd yn yr adroddiad hwn, mae gweithio mewn partneriaeth yn digwydd ar draws pob lefel o'r Cyngor.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir y Fflint o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) (2015) ac mae wrth wraidd hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'n gilydd. Mae'n canolbwyntio egni, ymdrech ac adnoddau ar ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i'n cymunedau lleol a rhan o'i waith yw adeiladu gwytnwch a sgiliau. Cawsom wybod am rywfaint o hyn yn Adran 4.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd ac mae cyfarfodydd strategol rhwng y prif weithredwyr a'r arweinwyr yn digwydd ddwywaith y flwyddyn. Mae nifer o gyfarfodydd gweithredol ar y cyd yn digwydd drwy'r flwyddyn yn cynnwys cyfarfod craffu arbennig bob chwe mis lle y gwahoddir cydweithwyr iechyd i fod yn bresennol a chymryd cwestiynau gan aelodau etholedig. Ein Cyngor ni yw'r mwyaf o chwe Chyngor Gogledd Cymru ac mae'n timau gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd gweithio mewn partneriaeth ranbarthol o ddifrif. Ceir cyfarfodydd rhwng arweinwyr a phenaethiaid gwasanaeth bob mis lle mae penderfyniadau strategol sy'n effeithio ar y gwasanaethau cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru yn cael eu trafod. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn cymryd rhan hefyd ym Mwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru, Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol Gogledd Cymru a Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru (sy'n hybu defnydd yr iaith Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol).

Mae'n Prif Swyddog a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yn mynychu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a sefydlwyd i wella deilliannau a lles pawb yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn golygu cyflwyno gofal mewn ffordd gyd-gysylltiedig, helpu pobl i fyw'n annibynnol yn hirach a buddsoddi mewn modelau ataliol o ofal da.

## Bod yn gyd-gynhyrchiol

Fel yr ydym wedi pwysleisio, mae cyd-gynhyrchu'n gwasanaethau gyda'r bobl sy'n eu defnyddio yn bwysig i ni. Yn y gwasanaethau plant mae gennym fforwm sydd wedi hen sefydlu lle mae aelodau etholedig yn clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am eu profiadau a'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae materion diweddar a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys:

- Barn pobl ifanc am adolygiadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Roeddent yn teimlo'u bod yn rhy hir, gyda chwestiynau y gellid eu gofyn y tu allan i'r cyfarfod adolygu, a heriwyd pam fod rhai cwestiynau'n cael eu gofyn o gwbl. Yna daeth ein swyddogion adolygu annibynnol i siarad â'r bobl ifanc am yr adolygiadau a sut y gellid eu gwella.
- Penodi swyddog cyfranogi. Disgrifiodd y bobl ifanc beth fyddai penodiad da a datblygwyd cwestiynau ar gyfer y broses gyfweld.
- Barn pobl ifanc am brydau ysgol. Dywedwyd wrthym fod y cynnig o bryd poeth mewn cinio ysgol am ddim yn rhy gul ac o ganlyniad bydd mwy o ddewis ar gael ar y fwydlen am bris sydd oddi mewn i'r dyraniad pryd ysgol am ddim.

## Diogelu a chwynion

Yn Adran 4 fe ddywedon ni wrthych am y gwaith y mae'n huned ddiogelu bwrpasol yn ei wneud i amddiffyn oedolion a phlant. Rydym yn aelod gweithgar o Fyrddau Diogelu Gogledd Cymru, oedolion a phlant, a'u

# Adran 5:  Sut Rydym Yn Gwneud Yr Hyn a Wnawn

his-grwpiau, ac yn 2015 fe sefydlom ni Banel Diogelu Corfforaethol. Rhoesom enghreifftiau i chi o'r camau rydym wedi'u cymryd dros y deuddeg mis diwethaf i sicrhau dull cyd-gysylltiedig o ysgwyddo'n cyfrifoldebau diogelu corfforaethol fel yn ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Mae'r Ddeddf hon a Rheoliadau Gweithdrefn Gŵynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2014 yn mynnu bod Cynghorau'n cadw trefn sylwadau a chwynion ar gyfer swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob Cyngor adrodd yn ôl yn flynyddol ar sut mae'n rhoi'r drefn hon ar waith. Yn Sir y Fflint gwneir hyn drwy adroddiad blynyddol i'n pwyllgor craffu sy'n rhoi manylion niferoedd y cwynion a dderbyniwyd dros gyfnod o ddeuddeg mis ynghyd â chrynodeb o'r materion a godwyd a'u canlyniadau.

O'r 4,099 o oedolion a dderbyniodd ofal a chefnogaeth yn ystod 2017-18 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, cwynodd 80 o unigolion am y gwasanaeth a dderbyniasant (2%). O'r 1,926 o blant a theuluoedd a dderbyniodd ofal a chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, cwynodd 49 o unigolion am y gwasanaeth a dderbyniasant (2.5%). Mae nifer y cwynion a dderbyniwyd am y ddau faes gwasanaeth yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol.

# Adran 6 Troi at Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol

## Deddfwriaeth a Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol:

Lle i'w Alw'n Gartref: Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru

Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol

DEWIS Cymru

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Dogfennau Strategol Allweddol Cyngor Sir y Fflint

Cynllun y Cyngor 2017/18

Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2016/17

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

# Termau

**Profiadau Plentyndod Niweidiol (ACEs)** Term a ddefnyddir i ddisgrifio ystod eang o brofiadau dirdynnol neu drawmatig y mae plant yn eu hwynebu wrth dyfu. Gall ACEs armywio o brofiadau sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol i'r rheiny sy'n effeithio ar yr amgylchedd y mae'r plentyn yn tyfu ynddo.

**Eiriolaeth** Y weithred o siarad ar ran neu i gefnogi person arall.

**Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid** Yn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n gwarchod pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal neu ysbytai sy'n ddiamddiffyn oherwydd anhwylder meddyliol ac sydd heb y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau am eu hanghenion gofal a llety eu hunain.

**Taliadau Uniongyrchol** Rhoi arian yn uniongyrchol i ddefnyddwyr i dalu am eu gofal eu hunain, yn hytrach na'r llwybr traddodiadol, sef yr Awdurdod Llywodraeth Leol yn darparu gofal iddyn nhw.

**Y Gronfa Gofal Integredig (ICF)** Llif cyllid gan gronfa Llywodraeth Cymru sy'n "anelu at yrru a galluogi gwaith integredig rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol..

**Plant sy'n Derbyn Gofal** Mae plentyn dan ofal awdurdod lleol os yw llys wedi rhoi gorchymyn gofal i'w roi mewn gofal, neu os yw adran gwasanaethau plant cyngor wedi gofalu am y plentyn am fwy na 24 awr.

**Rhoi pwyslais ar Ddeilliannau** Y diffiniad o ddeilliannau yw effaith neu ganlyniadau gwasanaethau ar fywyd rhywun. Felly mae gwasanaethau a chefnogaeth sy'n rhoi'r pwyslais ar ddeilliannau yn ceisio cyrraedd y dyheadau, y nodau a'r blaenoriaethau a nodwyd gan y defnyddwyr gwasanaeth (a gofalwyr) – yn wahanol i wasanaethau y mae eu cynnwys a/neu eu cyflwyniad yr un fath i bawb neu wedi'u penderfynu gan y rhai sy'n eu cyflawni.

**Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn** Dull sy'n symud oddi wrth ymarferwyr yn penderfynu beth sydd orau i glaf neu ddefnyddiwr gwasanaeth, ac yn gosod yr unigolyn yn y canol, fel arbenigwr yn eu profiad eu hunain. Mae'r unigolyn, a'r teulu lle'n briodol, yn dod yn bartner cyfartal mewn cynllunio'u gofal a'u cefnogaeth, gan sicrhau ei fod yn bodloni ei anghenion, nodau a deilliannau.

**Ailalluogi** Yn cefnogi rhoi sylw'r gwasanaeth ar annibyniaeth ac yn harneisio cyfraniad iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd.

**Unigolyn cyfrifol** Rhywun sydd â gofal cynnig y gwasanaeth mewn sefydliad neu awdurdod lleol. Gall hwn fod y perchennog neu rywun â swydd uwch.

**Diogelu** Term a ddefnyddir i ddynodi mesurau i warchod iechyd, lles a hawliau dynol unigolion, sy'n caniatáu i bobl fyw yn rhydd rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod

**Cytundeb Lefel Gwasanaeth** Ymrwymiad rhwng darparwr gwasanaeth a chleient. Cytunir ar agweddau arbennig o'r gwasanaeth – ansawdd, argaeledd, cyfrifoldebau – rhwng y darparwr gwasanaeth a'r defnyddiwr gwasanaeth.

**Menter Gymdeithasol** Corff sy'n defnyddio strategaethau masnachol i wneud y gwelliannau mwyaf i les pobl a'r amgylchedd – gall hyn gynnwys uchafu effaith gymdeithasol ochr yn ochr ag elw i randdeiliaid allanol.

**Datganiad o Ddiben** Dogfen allweddol sy'n gosod allan y weledigaeth i'r gwasanaeth a'i ddyheadau i ddiwallu anghenion y bobl sy'n derbyn gofal a chymorth.

**Trydydd Sector** Y rhan o economi neu gymdeithas sy'n cynnwys cyrff neu fudiadau anllywodraethol, di-elw, yn cynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cwmnïau cydweithredol ayb.

**Lles (neu Llesiant)** Y cyflwr o fod yn gyffyrddus, yn iach neu'n hapus.

## Atodiad 1: Astudiaeth achos y Tîm Adnoddau Cymunedol

Cyfeiriwyd Mrs. Swallow at y Tîm Adnoddau Cymunedol yn dilyn ymweliad cartref gan ei Meddyg Teulu, a oedd yn pryderu ei bod yn aros yn ei gwely a ddim yn bwyta nac yn yfed. Y diwrnod hwnnw galwodd nyrs y Tîm a therapydd galwedigaethol i'w hasesu a chael Mrs, Swallow i fyny'r grisiau yn ei llofft. Roedd hi'n byw mewn bwthyn gyda grisiau cul, serth iawn ac roedd ei chyfleusterau (toiled, ystafell ymolchi a chegin) i gyd i lawr y grisiau.

Gwelwyd Mrs. Swallow yn symud yn annibynnol o'i gwely i sefyll, roedd ganddi ffrâm gerdded yn barod ac aseswyd ei bod yn ddiogel i symud gyda goruchwyliaeth. Penderfynwyd fod Mrs. Swallow angen gofalwyr i helpu gyda gofal personol, toiledu a phob pryd bwyd a diod. Fodd bynnag, barnwyd ei bod yn beryglus i'r gofalwyr gario bwyd a diod a dysglau poeth o ddŵr i fyny ac i lawr y grisiau. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd y byddai Mrs. Swallow yn mynd i lawr i fyw ar y llawr gwaelod lle'r oedd ei chyfleusterau i gyd. Gyda goruchwyliaeth agos gan y therapydd galwedigaethol a'r nyrs, llwyddodd Mrs. Swallow i fynd i lawr y grisiau yn araf iawn ond yn hollol ddiogel ac fe'i gwnaed yn gyffyrddus ar wely soffa mawr yn y lolfa.

Dechreuodd y galwadau gofal y noson honno a threfnwyd pecyn oedd yn cynnwys pedair galwad ddyddiol i helpu Mrs. Swallow gyda'i gofal personol ac i'w hannog i fwyta ac yfed. Cafodd Mrs. Swallow ymweliadau dyddiol gan y nyrs i wirio ei chynnydd, monitro ei symudiadau a faint roedd hi'n bwyta ac yn yfed. Cymerwyd gwaed hefyd a chadwyd cysylltiad agos gyda'r Meddyg Teulu i drefnu diodydd atchwanegiadau bwyd ac adolygu ei meddyginiaeth.

Heb yr asesiad hwn mae'n sicr y byddai Mrs. Swallow wedi gorfod mynd i'r ysbyty.

## Atodiad 2: Astudiaeth Achos Baban X

Cafodd Baban X ei eni i fam ag anghenion ychwanegol a diagnosis o awtistiaeth. Daeth Baban X yn wybyddus i'r gwasanaethau amddiffyn plant oherwydd bod y fam mewn perthynas lle'r oedd camdriniaeth ddomestig gyda thad y baban, yr oedd yntau'n wybyddus i'r gwasanaethau iechyd meddwl a chyffuriau ac alcohol. Y pryderon cychwynnol oedd nad oedd gan y fam y cymhwysedd i edrych ar ôl y baban ac y dylid tynnu'r baban o'i gofal. Mabwysiadwyd dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a dangosodd cynllun amddiffyn plant amlasiantaeth yr anghenion a welwyd yn yr asesiadau a wnaed. Gofynnwyd i'r gwasanaethau iechyd weithio mewn ffordd ychydig yn wahanol gyd mam y baban, gan ddefnyddio cymhorthion gweledol a bwrdd stori darluniadol i roi cyfarwyddiadau. Gofynnwyd i'r ymarferwyr proffesiynol i gyd wneud pethau'n raddol. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau byr, a fyddai wedyn yn cael eu hailadrodd nes bod y fam yn teimlo'n hyderus ac yn gallu prosesu'r wybodaeth a rannwyd gyda hi. Drwy gydol y broses amddiffyn plant, datblygodd y fam berthynas dda gyda'r gweithwyr proffesiynol. Yn y trydydd adolygiad tynnwyd enw Baban X o'r gofrestr amddiffyn plant a rhoddwyd cefnogaeth barhaus gyda'r gwasanaethau cyffredinol. Mae'r enghraifft hon yn dangos, os oes cynllun gofal clir a strwythuredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a hwnnw'n cyfeirio asiantaethau lluosog tuag at dasgau sy'n rhoi sylw i ddeilliannau, gall y canlyniadau fod yn gadarnhaol.

## Atodiad 3: Astudiaethau Achos yr Hwb Help Cynnar

### Atgyfeiriad 1

Gwnaed y cyfeiriad hwn i'r Hwb Help  Cynnar gan y gwasanaethau plant ym mis Ebrill 2017 a dyma ddiweddariad ar ganlyniadau cymorth yr Hwb i'r teulu hwn.

Anfonwyd y cyfeiriad cychwynnol i'r gwasanaethau plant gan y tîm dyletswydd brys allan o oriau. Yn seiliedig ar yr wybodaeth yn y cyfeiriadau, penderfyniad y Gwasanaethau Plant oedd "dim camau pellach" ac fe'i trosglwyddwyd i'r Hwb Help Cynnar.

Mae'r cyfeiriad yn gysylltiedig â digwyddiad pan fu i'r fam gysylltu â'r gwasanaethau ambiwlans ar ôl dychwelyd adref a chael ei phartner wedi meddwi'n dwll mewn pwll o gyfog. Roedd hi wedi gadael y cartref teuluol am ychydig oriau gan adael ei phartner i ofalu am eu plant ifanc. Yn yr atgyfeiriad, roedd yn dweud fod y gŵr yn dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma. Roedd gwybodaeth bellach a gafodd aelodau'r Hwb yn awgrymu fod digwyddiadau blaenorol wedi bod yn gysylltiedig ag iechyd meddwl y tad.

EHH members were able to identify numerous sources of support that could be available to the family. The health visitor undertook a home visit and discussed the latest incident and the options for support for the family. The family was in agreement for support and subsequently a referral to the team around the family (TAF) service was made. The family was allocated a team around the family officer who has worked with them for the past 7 months.

Llwyddodd aelodau'r Hwb i ganfod sawl ffynhonnell o gymorth a allai fod ar gael i'r teulu. Gwnaeth yr ymwelydd iechyd ymweliad cartref a thrafododd y digwyddiad diweddaraf a'r opsiynau o ran cymorth i'r teulu. Roedd y teulu'n cytuno fod angen cymorth ac felly fe'i cyfeiriwyd at y gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu (TAT). Neilltuwyd tîm i'r teulu o dan y swyddog teulu sydd wedi bod yn gweithio gyda nhw dros y 7 mis diwethaf.

Gellir ystyried yr effaith a gafwyd yn sgil y gefnogaeth fel rhywbeth cadarnhaol. Dangosodd y deilliannau a fesurwyd o fewn TAT fod gwelliannau positif wedi bod yn amgylchiadau'r teulu, a heb gymorth yr Hwb Help Cynnar, gallai fod yn wahanol stori. Gallai digwyddiadau pellach fod wedi arwain at bryderon diogelu ac o bosibl ymyrraeth statudol.

## Atgyfeiriad 2

Pasiwyd yr atgyfeiriad hwn i'r Hwb Help Cynnar gan y gwasanaethau plant yn ddiweddar iawn. Roed yn gyfeiriad heddlu CID16 nad oedd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol. Fel arfer y penderfyniad ar y cyfeiriad hwn fyddai "dim camau pellach" ond roedd cael yr Hwb Gofal Cynnar yn ei le yn golygu y gellid ei drosglwyddo i gael ystyriaeth am gefnogaeth.

Mae'r cyfeiriad ei hun yn gysylltiedig ag achos domestig yng nghartref y teulu. Roedd y cyfeiriad yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn awgrymu y gallai fod problemau perthynas rhwng aelodau'r teulu a rhai anawsterau iechyd corfforol a meddyliol. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth fod un aelod o'r teulu'n dioddef gan afiechyd ar hyn o bryd. Roedd yn ymddangos fod gan y teulu nifer o broblemau ac roedd hi'n amlwg y byddent yn elwa o gael cymorth.

Gofynnwyd am wybodaeth am y teulu gan asiantaethau eraill. Daeth yn amlwg nad oedd asiantaethau eraill yn gwybod am y teulu hwn. Fodd bynnag, bu cyfeiriad blaenorol at y gwasanaethau plant yn 2014. Roedd y sawl a'i cyfeiriodd yn teimlo fod y teulu angen cefnogaeth. Y penderfyniad yn 2014 oedd "dim camau pellach". Nid oedd Hwb Help Cynnar ar gael ar y pryd i dderbyn cyfeiriadau ac ni chafodd y cyfeiriad hwn ei rannu na'i ddilyn gan asiantaethau eraill.

Gwnaeth hyn i aelodau'r Hwb sylweddoli y gallai'r teulu hwn ac yn wir y dylai fod wedi cael cynnig cefnogaeth ar yr adeg y gwnaed y cyfeiriad yn 2014. Pe na bai'r Hwb Help Cynnar yn ei le byddai'r cyfeiriad diweddaraf hwn hefyd wedi derbyn "dim camau pellach" ac unwaith eto ni fyddai cymorth wedi cael ei roi i'r teulu.